# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mehefin 2015 Rhif 456 50c

## Testun Dathlu!



Llongyfarchiadau i dri o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen sydd wedi ennill tair gwobr gyntaf yng Nghystadlaethau Rhyddiaith a Chyfansoddi Cerddoriaeth Eisteddfod yr Urdd Caerffili.

Gwydion Rhys – 1af Cyfansoddi Blwyddyn 7 ac 8
Buddug Roberts – 1af Rhyddiaith Blwyddyn 10 ac 11
Hannah Cook - 1af Rhyddiaith i Ddysgwyr Blwyddyn 10 ac 11 yn ogystal â 3ydd yng nghystadleuaeth Medal y Dysgwyr a hithau dim ond wedi bod yn dysgu Cymraeg am ddwy flynedd a hanner. Campus!

Llongyfarchiadau hefyd i bawb o'r fro a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod yng Nghaerffili. Mae'n wych gweld disgyblion y Dyffryn yn serennu ar y llwyfan ac yn llwyddo yn y cystadlaethau celf, cyfansoddi a llên. Da iawn chi bob un ohonoch. Dyma rai o'r enillwyr eraill, Efa Glain (2il unawd) Ithel Temple Morris (1af celf 3D), Anest Bryn (1af argraffu), Lleucu Bryn (2il argraffu) Gwydion Rhys (3ydd soddgrwth), Marteg Dafydd (1af telyn). Mae'r manylion yn llawn dan newyddion yr ysgolion neu'r ardaloedd penodol.

## CALENDR LLAIS OGWAN 2016

Lluniau ar gyfer Calendr 2015 i mewn cyn
**DIWEDD GORFFENNAF 2015**
os gwelwch yn dda.
Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael eu hystyried.
Lluniau (yn ddigidol, os yn bosibl) i


Dafydd Fôn **deifon@yahoo.co.uk**
neu (os nad ydynt yn ddigidol, neu ar ddisg)
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan. LL57 3TR

## Criw Bethesda o Gôr Glanaethwy yn barod am Britain's Got Talent!



Llongyfarchiadau i bawb o Ddyffryn Ogwen a oedd yn rhan o Gôr Glanaethwy a lwyddodd i gyrraedd y trydydd safle yn y gystadleuaeth boblogaidd Britain's Got Talent – canlyniad penigamp! Roedd y côr yn un o'r ffefrynnau o'r cychwyn cyntaf ac roedd yna gryn densiwn a chyffro ar nos Sul y ffeinal wrth i filiynau wylio'u perfformiad gwefreiddiol o Haleliwia gan Leonard Cohen. Llwyddiant arbennig a phrofiad bythgofiadwy i bawb ohonoch! Bydd galw mawr am wasanaeth y côr o hyn ymlaen, heb os!

## GENOD Y WEIRAN WIB




Mentrodd Angharad Huws ac Alwenna Puw ar y weiran wib i gasglu arian at ymchwil cancr Tenovus a Ffynnon Affrica. Mwy o'r hanes ar dudalen 4.

# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL


**Derfel Roberts** ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

**Ieuan Wyn** ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

**Lowri Roberts** ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Dewi Llewelyn Siôn** ☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

**Fiona Cadwaladr Owen** ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

**Siân Esmor Rees** ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

**Neville Hughes** ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan** ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard** ☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter W Williams** ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk


### SWYDDOGION


**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co,uk

**Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Fiona Cadwaladr Owen

Golygydd mis Gorffennaf fydd Siân Esmor Rees, Gwenlais, 8 Bron Arfon, Llanllechid, LL57 3LW. 01248 600427. sian_esmor@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 1 Gorffennaf, os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 16 Gorffennaf, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.


**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**


## DYDDIADUR Y DYFFRYN

**Mehefin**

20 Côr y Penrhyn a Black Dyke Band yn Venue Cymru Llandudno.

22 Te Bach. Festri Carmel, Llanllechid. 2.30 – 4.00.

24 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.Cefnfaes am 7.30.

26 Noson William Morgan (a'i Ddefaid). Clwb Criced Bethesda.

26 Cymhorthfa Alun Ffred Jones AC. Canolfan Tregarth. 3.00 – 4.00.

27 Bore Coffi Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.

27 Ffair Grefftau Bethesda. Neuadd Ogwen am 9.30.

27 Te Mefus Eglwys Maes y Groes Talybont. Ysgoldy am 2.00.

30 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

**Gorffennaf**

01 Te Mefus. Festri Bethlehem Talybont am 7.00.

02 Sefydliad y Merched Carneddi. Andre Lomozik. Cefnfaes am 7.00.

03 Barbeciw a Noson y Talentau Lleol. Clwb Criced a Bowlio Bethesda am 7.00.

04 Garddwest 3 Eglwys. Ficerdy Pentir. 1.00 – 4.00 yp.

09 Disgo Haf. Clwb Criced Bethesda. 6.00 – 8.00 yh.

10 Cymhorthfa Hywel Williams AS. Festri Carmel, Rachub. 2.30 – 3.30.

11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.

16 Plygu Llais Ogwen. Cefnfaes am 6.45.

**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:**

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub

## Siop Ogwen, Bethesda

(drws nesaf i'r Neuadd)

**Dyma le hwylus i chi adael eitemau ar gyfer Llais Ogwan -**

newyddion, lluniau, hysbysebion ac ati.
Dim ond eu rhoi mewn amlen wedi ei gyfeirio at Llais Ogwan (Cofiwch nodi eich enw a'ch rhif ffôn

Gallwch brynu copi o'r Llais yno hefyd.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £5.00 | Llewela O'Brien, Bangor, er cof am Vernon ei gŵr, a fuasai'n 82 mlwydd oed ar 20 Ebrill. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Delyth Robinson, Ciltrefnus, a fuasai'n 57 mlwydd oed ar 22 \|Mehefin, oddi wrth Peter, Wayne, Dion, Marc a Nansi. |
| £15.00 | Hugh Griffith, Bryn Tirion, Llanfairpwll. |

**Diolch yn Fawr**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwobrau Mehefin

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (132) | Iolo Williams, Penrhosgarnedd. |
| £20.00 | (161) | Meirwen Jones, Bethel. |
| £10.00 | (165) | Meirwen Williams, Rhes Ogwen, Bethesda. |
| £5.00 | (169) | Rita Lewis, Pantglas, Bethesda. |

## Llais Ogwan ar CD

Gelllir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor

**☎ 01248 353604**

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd ☎ 601415**
**Neville Hughes ☎ 600853**


**Cyhoeddir gan**
**Bwyllgor Llais Ogwan**
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
**post@tasg.co.uk**

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669


## Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184


**Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.**

## *Annwyl Olygydd*

# Harddu'r Stryd Fawr

Unwaith eto eleni mae Balchder Bro Ogwen wedi ceisio harddu Stryd Fawr Bethesda drwy osod basgedi blodau ar rai o'r siopau. Diolch i'r busnesau hynny sydd wedi ymuno â'r cynllun a diolch i Gyngor Cymuned Bethesda am eu cefnogaeth ariannol i Balchder Bro. Diolch hefyd i Menter Fachwen am baratoi'r basgedi ar ein cyfer.



Cyrhaeddodd y lori flodau a chriw Menter Fachwen ar fore Mercher, 3 Mehefin, ac fe'u croesawyd i Lys Dafydd gan rai o aelodau Balchder Bro, fel y gwelir yn y llun.

**Annwyl Olygydd,**
Chwi gofiwch sylw yn y Llais ar ddechrau mis Chwefror, yn ystod yr eira trwm, pan fu i'r Llechfaen ddiflannu un noson o'r Llwybr rhwng Ty'n Llidiart yn Rhiwlas a Phen y Bwlch ym Mynydd Llandygai, a byth i'w gweld eto.

Er cael cymorth gan PCSO Iwan Owen, a fu'n chwilio o gwmpas yr Ardal, ynghyd ag ymdrechion Gareth y gŵr a minnau a llawer o rai eraill i ddarganfod y lechan, ofer fu'r ymdrechion er yr hysbysebu yn y papurau lleol ac ar y rhyngrwyd i'w darganfod. Penderfynais ofyn i Chwarel y Penrhyn am rodd o garreg debyg, ac wrth gwrs roeddent yn barod iawn eu cymorth ac yn gwerthfawrogi'n llwyr bwysigrwydd y Pilar o nodi'r ffin rhwng Stadau y Faenol a Phenrhyn.

Yn ogystal â charedigrwydd y Chwarel, bu i Adeiladwr Lleol o'r enw Dave Scott o Gwmni Alltrades, gynnig dod gyda ni i'r Chwarel i ddewis Pilar tebyg, tua 8 troedfedd o hyd a rhyw droedfedd a hanner o led, a'i chario i fyny i Pishin Cacan i'w gosod yn y fan a'r lle! Felly ar ôl dweud wrth gymaint o bobl leol ac y medrwn, yno y bu i ni fynd ar brynhawn braf.

Roedd Dave wedi dod â Jac Codi Baw i'w chario, gyda digon o goncrit i wneud yn saff nad oedd yn symud unwaith eto. Cefais fy hebrwng i fyny drwy garedigrwydd yr Heddlu, sef PCSO Iwan Owen.

Bu i'r holl gymuned yma yn y Mynydd werthfawrogi'n fawr cael pobl i gydweithio fel hyn er lles y gymuned, ac i'r Pilar gael ei werthfawrogi gan y genhedlaeth i ddod.

**Gwen Griffith**

# Rasio yn y Pyranees i godi arian

**Annwyl Olygydd,**
Ar 20 Mehefin 2015, byddaf yn cymryd rhan yn Sportive y Quebrantahuesos (y "malwr esgyrn"!) ym mynyddoedd y Pyranees. Mae'r ras yn her enfawr ac yn cynnwys cyfanswm o dros 3500 medr o ddringo (uchder 3 Wyddfa!).

Rwy'n gwneud y ras i godi arian tuag at Gymdeithas Motor Neurone er cof am fy mam-yng-nghyfraith, Gwyneth Mair Williams. Dynes addfwyn ac arbennig a fu farw o'r cyflwr enbyd hwn ym mis Awst 2013. Nid oes unrhyw wellhad i gyflwr Motor Neurone a bydd unrhyw gyfraniad gennych yn cyfrannu tuag at waith ymchwil pwysig i'r cyflwr erchyll hwn.

Gallwch gyfrannu drwy fynd i <https://www.justgiving.com/Meirion-Davies/> neu alw heibio swyddfa Partneriaeth Ogwen ar y stryd fawr i lenwi ffurflen nawdd neu cysylltwch â Meirion drwy ffonio 07824 808238.

Diolch o galon am eich cefnogaeth.

**Meirion Davies, Llanllechid**

**GWYBODAETH BWYSIG I GLEIFION**

**Annwyl Glaf**
Rydym am eich hysbysu y bydd Dr Catherine Fillingham yn gadael y feddygfa ddiwedd mis Gorffennaf, yn anffodus, er mwyn ymgymryd â rôl Meddyg Teulu gyda meddygfa arall yng Ngwynedd. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau i ddenu Partner Meddyg Teulu newydd i gymryd lle Dr Fillingham, rydym wedi bod yn aflwyddiannus ac felly fe fyddwn yn gostwng o fod yn feddygfa â phedwar Meddyg Teulu i fod yn feddygfa â thri o 1af Awst.

Oherwydd y diffyg diddordeb yn y swydd Partner Meddyg Teulu a gafodd ei hysbysebu yn y 'British Medical Journal' ac ar wefannau GIG amrywiol, fe ystyriwyd y posibilrwydd o gyflogi Meddyg Teulu Cyflogedig. Ar ôl ystyried yn ofalus, fodd bynnag, penderfynwyd nad oedd hyn yn opsiwn ymarferol ar hyn o bryd o ganlyniad i nifer o ffactorau ariannol yn cynnwys penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i newid y trefniadau ar gyfer un ffynhonnell cyllid hanesyddol o'r enw Gwarant Isafswm Incwm Practis a fydd yn arwain at leihad sylweddol yn incwm y feddygfa tros y saith mlynedd nesaf.

Er y byddwn yn parhau i ymdrechu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl o fis Awst ymlaen, efallai y bydd angen cyflwyno newidiadau er mwyn lleihau effaith colli Meddyg Teulu ar y Meddygon sy'n weddill, Nyrsys a staff y feddygfa ac wrth gwrs ein cleifion. Bydd y tîm cyfan yn gweithio'n galed dros y misoedd sydd i ddod er mwyn osgoi tarfu ar gleifion gymaint â phosibl, ond hoffem ofyn i chi fod yn amyneddgar gyda ni yn ystod y cyfnod o newid i dri Meddyg Teulu.

Diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir
**Drs Woodvine, Thorne a Williams**

## Helpu Gwenoliaid Duon

Yn ddiweddar, mae Ben Stammers o'r Ymddiriedolaeth Natur wedi bod yn ceisio helpu'r adar cyflym, diddorol a dirgel hyn. Mae poblogaeth y gwenoliaid duon (swifts) wedi lleihau 60% ers y 90'au yng Nghymru, ond mae Dyffryn Ogwen yn rhywfaint o gadarnle iddynt.

Mae Ben wedi bod yn gosod blychau arbennig ar adeiladau'r ardal i geisio ehangu'r dewis o safleoedd nythu. Erbyn hyn, mae yna flychau nythu ar y Ganolfan Feddygol, Plas Ffrancon, Ysgol Llanllechid, ar gefn adeilad Arafa Don, ar Gapel Carmel a Stryd Britannia yn Rachub.

Fel un o'r creaduriaid cyflymaf yn y byd (yn gallu hedfan hyd at 70 milltir yr awr), mae'r wennol ddu yn byw bron iawn ei holl fywyd yn yr awyr. Dim ond am ryw dri mis yn unig y maen nhw hefo ni yng Nghymru, ac yna maen nhw'n mudo'n ôl i Affrica ar ddiwedd yr haf.

Heblaw am amser nythu, dydy'r aderyn yma ddim yn cyffwrdd â'r ddaear o gwbl (maen nhw'n cysgu yn yr awyr), a thros eu hoes o ddeng mlynedd, mae'n bosib i un wennol ddu hedfan tua 4 miliwn o filltiroedd – cyfartal ag wyth taith i'r lleuad ac yn ôl. Felly rydym yn lwcus bod yna griw o'r teithwyr arbennig hyn yn dod i'n gweld yn Nyffryn Ogwen!



**Ben yn gosod un o'r blychau yn Rachub**

# Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

**Joe Hughes,**
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

**Prawf Gyrru a Phen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Cerian Emlyn, Rhoslan, Ffordd Bangor, ar basio ei phrawf gyrru. Pob hwyl i ti ar y ffordd - a chymer bwyll! Hefyd bu Cerian yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 20 Mai. Pen-blwydd hapus iawn i ti oddi wrth mam, dad, Mari, Mei, Deio, Ifan, Iona, Geraint ac Eila.

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Arwel a Linda Hughes, Preswylfa, Garneddwen, ar ddathlu 40 mlynedd o fywyd priodasol ar 10 Mai.

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau i Arwel a Linda Hughes, Preswylfa, Garneddwen, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, sef Imogen Mai, i Simon a Ceri yng Nghaer ar ddydd Sul, 23 Mai. Hefyd, llongyfarchiadau i Mrs Glenys Rowlands, Adwy'r Nant, ar ddod yn hen nain.

**Diolch**
Dymuna Iona a Geraint ddiolch o galon am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Dymuna Wendy Jones, 16 Maes Coetmor, a'r teulu, ddiolch yn fawr i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur trist marwolaeth Hughie Allen (Huw Ben). Diolch am yr holl gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn, ac am y rhoddion hael er cof amdano tuag at Tŷ Gobaith a Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r Parchedig Griff Jones am arwain y gwasanaeth ddydd yr angladd ac i Mr Stephen Jones am ei drefniadau trylwyr.

Dymuna Arwel a Linda, Preswylfa, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am eu caredigrwydd tuag atynt ar achlysur eu Priodas Ruddem. Hefyd, diolch am y dymuniadau da ar achlysur genedigaeth eu hwyres fach, Imogen Mai, merch Simon a Ceri.

Dymuna Emyr Griffith, bellach o Blas Ogwen, a'r teulu oll ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un mor arbennig, sef Elina Griffith, gynt o Erw Fair, Garneddwen. Diolch hefyd am y rhoddion hael a gasglwyd tuag at Ysgol Penybryn. Diolchwn i'r Parchedigion John Pritchard a Dafydd Coetmor Williams am y gwasanaeth teimladwy, ac i'r organyddes, Mrs Helen Wyn Williams. Hoffem ddiolch hefyd i Gaffi Coed y Brenin am ddarparu'r lluniaeth ac i Staff Plas Ogwen a Cherrig yr Afon am eu gofal yn ystod ei gwaeledd. Gwerthfawrogwn hefyd y trefniadau trylwyr a hynod barchus gan yr Ymgymerwr, Gareth Williams.

**Pen-blwydd Arbennig**
Dathlodd Mr Tom Jones, Cilan, Rhos y Coed, ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 7 Mai. Llongyfarchiadau a chofion cynnes atoch chi a Heddwen.

**Ysbyty**
Cofion cynnes a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn:-
Mr Dave Evans, Swn y Nant; Mrs Freda Adams, Abercaseg: Mrs Roma Griffith, Garneddwen; Mrs Eirwen Griffiths, Rhes Mostyn; Mrs Vera Morgan, Maes y Garnedd; Mrs Vera Griffiths, Maes y Garnedd; Linda Parker, Gwel y Nant.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Muriel Williams a'r teulu, Garneddwen, a Mr Clifford Smith a'r teulu, Adwy'r Nant, yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith ac ewythr, sef Mr Ivor Williams.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Wendy Jones a'r teulu, Maes Coetmor, yn eu profedigaeth o golli nith ym Mhorthaethwy ddiwedd mis Mai.

**Cartref Newydd**
Croeso cynnes iawn i'w chartref newydd yn 13 Glanffrydlas i Mrs Gill Taylor Williams.

**Marwolaeth**
Ar 14 Mai, ym Mhlas Garnedd, Llanberis, ac o 9 Ystad Coetmor, bu farw Mrs Dilys Parry yn 86 oed. Priod y diweddar Mr Joseph Parry, mam a mam-yng-nghyfraith Ellen a Jack, a Charles ac Ann. Nain hoffus i Andrew, Lisa, Laura, Beverley a Gareth, a hefyd yn hen nain.
Roedd yn aelod selog o Gapel Bethel, Rachub, ac yn organydd yno ers blynyddoedd. Yno y cynhaliwyd ei hangladd ar fore Iau, 21 Mai, ac yna ym mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, Y Parchedig Olaf Davies, gyda Mrs Helen Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich colled.

## GENOD Y WEIRAN WIB YN DIOLCH

Dymuna Angharad Huws ac Alwenna Puw ddiolch o galon am yr holl gefnogaeth a gawsant i'w menter fawr ar y weiran wib ddiwedd mis Mai.

Diolch i'r holl noddwyr. Maent wedi codi £1,200.00 rhyngddynt, Angharad at ymchwil cancr Tenovus ac Alwenna at y prosiect Ffynnon Affrica sy'n mynd ymlaen yng Nghapel Jerusalem ar y funud.
Diolch i bawb a ddaeth i'r chwarel i'w cefnogi. Diolch arbennig i "Spud" am edrych ar eu holau fel dwy frenhines, ac i'r criw o weithwyr ifanc am eu gofal trylwyr. Braf oedd gweld bod y rhan fwyaf o'r staff ifanc yn Gymry Cymraeg lleol.

**Cyfeillion Ysbyty Gwynedd**
Ar ddydd Iau, 21Mai, aeth tri aelod o'r Cyfeillion, sef Joe Hughes (cadeirydd), Iona Jones (is-gadeirydd) a Meryl Read (ysgrifennydd), i Goleg y Brifysgol Bangor i dderbyn rhodd o £738.76 gan bwyllgor RAG y coleg. Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd hael a'r croeso! Hefyd, derbyniwyd, gyda diolch, rodd o £100.00 gan Mrs P. Roberts o'r Gerlan tuag at waith y Cyfeillion.

**Hen daid**
Llongyfarchiadau i Owie Williams, Maes y Garnedd, ar ddod yn hen daid am yr ail dro. Ganed Morgan Tomos i'w wyres, Nicola, a'i phriod, Hywel Evans, sy'n byw ym Mhenmynydd, Ynys Môn. Pob dymuniad da i chi i gyd fel teulu.

## Cadeirydd Newydd

Dr. Paul Rowlinson, Crud yr Awel, Lôn Newydd, yw cadeirydd newydd Cyngor Cymuned Bethesda. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddo yn y swydd o hyn i fis Mai nesaf.



**Paul Rowlinson, Cadeirydd newydd Cyngor Cymuned Bethesda**

**Rygbi**
Llongyfarchiadau i James Hugh Owen ar gael ei enwebu yn Seren y Gystadleuaeth rygbi 7 bob ochr i blant Blwyddyn 7 ysgolion uwchradd Môn a Gwynedd. Roedd James yn aelod o dîm Ysgol Tryfan a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth. Cynhaliwyd y gemau ar gaeau rygbi Clwb Caernarfon. Mae James yn ŵyr i Eirwen a Dilwyn Owen, Erw Las ac yn aelod o dîm rygbi dan 12 oed Bethesda. Mawr yw ein diolch i'r rhai hynny sy'n rhoi o'u hamser i hyfforddi'r plant.

## Gorffwysfan

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yng Nghanolfan Cefnfaes ar Sadwrn, 30 Mai, pryd y gwnaed elw o £362.60. Diolch i bawb fu'n helpu, ac am y rhoddion caredig tuag at y byrddau gwerthu a'r raffl.

**Gwibdaith Gorffennaf:**
A fyddwch mor garedig â galw yng Ngorffwysfan ar fore Llun neu fore Gwener am wybodaeth, ac i roi eich enw ar y rhestr?

## Capel Bethania

### Gwasanaethau

**Mehefin**
21 Parchg. Gwynfor Williams
**Gorffennaf**
05 Miss Eleri Ll. Jones
19 Parchg. Gwynfor Williams

**Oedfaon am 5.30 o'r gloch**
**Croeso cynnes i bawb**

**Os am gynnal bore coffi neu ddigwyddiad arall yn Neuadd Ogwen cysylltwch gyda Dilwyn Llwyd drwy e-bost**
**post@neuaddogwen.com**
**neu drwy ymweld â'r neuadd i drafod.**

## Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Daeth tymor 2014/15 o'r gangen i ben nos Iau 28 Mai gyda'r wibdaith flynyddol. Trefnwyd taith eleni gan y llywydd Elina Owen a'r ysgrifennydd Jennie Jones, i'r Hen Felin, Ysbyty Ifan i gyfarfod Mrs Ella Jones, meistres y gwisgoedd i'r Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd Mrs Jones wahoddiad gan yr Eisteddfod i olynu'r cyn feistres, Sian Aman, am ei bod yn wniadwraig adnabyddus, yn rhedeg busnes gwneud dillad priodas ynghyd â'r ategolion ac yn y blaen, sef Cwlwm.

Cychwynasom o Fethesda ganol pnawn a hithau'n haul braf ond roedd y gwynt yn fain a phob un o'r aelodau wedi lapio. Roedd y daith i fyny'r Nant yn hyfryd drwy'r mynyddoedd ac yna'r daith trwy'r gwyrddni i fyny Dyffryn Conwy hyd at y troad i fyny i Ysbyty Ifan. Gwelsom ddiferion glaw ar ffenestri'r bws. Cawsom groeso cynnes gan Ella Jones tu allan i'r felin mewn cawod drom o law.

Ar ôl aros munudau, daeth haul allan a hebryngwyd ni i gyd i mewn i'r ystafell arddangos ar y llawr cyntaf. Roedd yr offer malu dal yno ynghyd â chasgliad o hetiau crand, tlysau a phenwisgoedd sgleiniog a chyfarchion priodasol o bob math. Yno hefyd roedd reilen yn dal enghreifftiau o ddillad yr orsedd. Wedi i bawb eistedd cawsom hanes ei chyflwyniad i'r gwaith o gynnal a chadw'r casgliad a dysgu sut i wneud rhai newydd. Dangosodd y gwisgoedd i ni fesul un a chynigiodd i ni gael trio un. Manteisiodd Rhiannon Efans ar y cyfle.



**Prifardd y dyfodol tybed?**

Roedd wrth ei bodd yn y wisg wen ac yn ffansïo ei hun yn fardd arobryn. Cwbl dwi isio rŵan meddai hi ydi cwrs barddoni er mwyn cael gwisgo un go iawn. Mwynhaodd pawb yr hwyl a chytuno i ymuno â hi ar y "cwrs".

Wrth fynd yn ei blaen eglurodd Ella beth oedd arwyddocâd y lliwiau a'r symbolau a oedd wedi'u gweithio i'r gwisgoedd. Adnabod swyddi oedd y rhesymau pennaf. Dangosodd wisg yr Archdderwydd i ni. Gwisgodd fenig gan fod y defnydd yn ddelicet a chawsom ein siarsio i beidio ag ymestyn allan i'w chyffwrdd. Roedd yn anodd peidio gan fod gwaith mor gywrain wedi mynd i'w chreu. Dangosodd gyfrinachau tu mewn i'r wisg sef rhestrau o enwau'r hanner cant o ferched weithiodd y brodwaith arni ynghyd ag enwau cyn archdderwyddon, cynllunwyr a gwneuthurwyr. Eglurodd sut oedd yn gorfod meddwl a chynllunio ffyrdd o addasu a gwella er mwyn diogelwch y gwisgwr. Rhaid gwneud y wisg yn hylaw i bobol o bob oed sydd heb arfer ymdopi â grisiau, llawr anwastad, tywyllwch y pafiliwn ac yn y blaen, mewn gwisg laes. Roedd hefyd wedi cynllunio gwisgoedd newydd i ferched y ddawns flodau gan ystyried gwahanol faint, taldra, a'r tywydd anwadal. Roedd Ella yn amlwg yn mwynhau'r gwaith ac wrth ei bodd yn rhannu'r wybodaeth i gymdeithasau gydag afiaith. Gwnaeth hyn i ni sylweddoli pa mor ddall a di-hid ydym wrth wylio rhaglenni a seremonïau. Addawsom i gyd wylio'r eisteddfod â llygaid newydd o hyn ymlaen.

Cyn gadael cawsom swper ardderchog - bwffe blasus ac iachus wedi ei baratoi gan un o ffrindiau lleol Ella.

Diolchwyd am y paratoadau gan y Llywydd. Mynegwyd gofid bod rhai aelodau wedi methu â bod hefo ni am resymau amrywiol. Roeddynt wedi colli noson ddifyr ac addysgiadol. Anfonwyd cyfarchion a gwellhad buan at deuluoedd rhai oedd yn dal i wella neu yn disgwyl triniaeth. Enillwyd y wobr lwcus, rhoddedig gan Jennie, gan Rita Bullock ac Elinor Holland. Edrychwn ymlaen rwan at raglen o weithgareddau'r flwyddyn nesaf. Croeso mawr i unrhyw un i ymuno â ni yn hwyl y gangen.

## Eglwys Crist, Glanogwen

### Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

**Sul Cyntaf pob mis**
Cymun Bendigaid – 8.00am
Boreol Weddi – 11.00am
**Ail a thrydydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
**Pedwerydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
**Pumed Sul -** Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (lleoliad i'w gyhoeddi)
**Pob bore Mercher am 10.30am** - Cymun Bendigaid

**Suliau i'w nodi:**
Mehefin 21 – Y Drindod 3 Cymun Bendigaid Cymraeg. 11.00am
Mehefin 28 – Y Drindod 4 Cymun Bendigaid Dwyieithog 11.00am

**Gweithgareddau Codi Arian i'w trefnu**
Sêl Cist Car – Mis Gorffennaf
Noson Caws a Gwin yng Ngwesty Douglas – Mis Awst
Bore Coffi, Cefnfaes – Mis Medi
**Manylion i ddod.**

Mae yna nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylder. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o'r gwasanaethau.

## Yr Eglwys Unedig

Emyr Roberts oedd yn trefnu'r Cyfarfod gweddi, a bu Alwena Pugh a Griff Charles Morris yn ei gynorthwyo, diolch iddynt.

**Y Gymdeithas**
Aeth y trip eleni i Eglwys Sant Peris, eglwys sydd tua 600 mlwydd oed ac mae'r dyddiad 1631 ar gloch y tŵr. Tywyswyd pawb o gwmpas yr eglwys gan Ken Jones ac roedd yn ddiddorol iawn. Diolch i Ken, a diolch am y baned ar ôl cyrraedd. Cafwyd bwffe ardderchog a phawb wedi mwynhau. Diolch i Minnie am drefnu. Croesawyd Sioned yn ôl yn aelod.

Llongyfarchiadau i Buddug W. Roberts ac i Lleucu ac Anest Bryn ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili. Rydym yn falch iawn ohonoch genod. Mae'r clwb Celf wedi anfon £100 at apêl Nepal a £50 at apêl Ffynnon Ddŵr Affrica. Diolch i'r aelodau am eu haelioni. Anfonodd yr Eglwys hefyd gyfraniad at Nepal.

Anfonwn ein cofion at y Parchedig John Owen, Dafydd Morris, Tecwyn Hughes, Muriel Williams a Vera Morgan a phawb arall sydd ddim yn dda ar hyn o bryd. Roedd Mrs Muriel Williams, Glanffrydlas, yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau Muriel.

Daliwn i gael oedfaon gwerth chweil ac edrychwn ymlaen atynt. Rhiannon oedd yn gyfrifol am yr oedfa ddiwethaf ar 31 Mai, gyda Sioned yn cymryd rhan, a Sara Owen nos Sul. Diolch iddynt.

### Cyhoeddiadau

**Gorffennaf**
05 Parch. Gwynfor Williams
12 Parch William Davies
19 Mr T. Alun Williams
26 Parch Geraint Hughes.

Mae'r Clwb Nos Fawrth a'r Ysgol Sul wedi ailddechrau. Croeso hefyd i unrhyw un ddod i'r Clwb Celf bob yn ail fore Mercher.

Bu Alwena ar y Weiren Wib – dyna antur! A chasglwyd bron i £600 tuag at y Ffynnon Ddŵr yn Affrica. Mae'n diolch i bawb a'i noddodd.

**SEFYDLIAD Y MERCHED CARNEDDI**

Ar noson braf o Fehefin rhoddodd ein llywydd groeso cynnes i ni ar ôl y glaw a gawsom ar ddechrau'r wythnos. Mae ein cofion yn mynd at Heddwen Jones sydd ddim yn dda ei hiechyd ar hyn o bryd. Bu'n aelod ffyddlon iawn o'r sefydliad ac mae pawb yn cofio atat Heddwen. Daeth ychydig o ymddiheuriadau i law, yn arbennig gan Gwyneth Morris gan ei bod hi a llawer iawn o aelodau sefydliadau eraill yn Neuadd Albert yn Llundain yn y cyfarfod blynyddol. Fe gawn hanes y diwrnod mawr fis nesaf gan Gwyneth. Yr oedd lluniau o'r cyfarfod ar y newyddion ac yn ôl bob golwg roedd wedi bod yn ddiwrnod bendigedig yno, yr haul wedi gwenu ar bawb oedd yn y brif ddinas.

Yr oedd rhai o'r aelodau wedi bod ym Miwmares i weld y faner a gafodd ei chynllunio gan y sefydliadau i ddathlu 100 mlwyddiant Sefydliad y Merched. Yn ôl y merched 'roedd yn werth ei gweld - yn dangos y caledi dros y blynyddoedd yng Ngogledd Cymru. Darllenwyd y cofnodion gan Jean ac aeth Margaret ymlaen i ddarllen y llythyr misol a'i gynnwys yn ogystal â gweddill dathliadau'r sefydliadau drwy'r flwyddyn.

Andre Lomozik oedd y gŵr gwadd ac fe ddangosodd luniau i ni o adeiladau a phontydd rhestredig yn ein hardal - ac mae 250 ohonynt. Pwy fasa'n meddwl ynte!! Yr oedd pawb wedi synnu at y llefydd ar y rhestr, bron bob un yn radd 1 neu 2 yn cynnwys eglwysi, capeli, tafarnau, ffermydd, pontydd a thai yn yr ardal. Noson ddifyr iawn! Mae Andre yn berson cydwybodol a bob amser yn barod ei wasanaeth.

Diolchodd Ceinwen iddo am ei amser a'i waith trylwyr, ac i'r merched am y baned. Enillydd y wobr lwcus oedd Ceinwen (yn rhodd gan Rita Bullock).

# Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Lowri Ogwen ac Arwyn Griffith, Ciltrefnus, ar enedigaeth mab bach, Twm Ogwen. Mae croeso mawr i'r bychan ar yr aelwyd, ac yn enwedig gan ei frawd mawr, Ned. Ein dymuniadau gorau i chi i gyd. Rydym, hefyd, yn llongyfarch taid a nain Yr Ardd Fawr, Richard Ogwen a Rhian, ynghyd â nain Pen Clwt, sef Ogwena. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

**Yn yr ysbyty**
Rydym yn gyrru ein cofion at Dafydd Morris, Y Garnedd Uchaf, Ffordd Abercaseg, sydd wedi treulio cyfnod estynedig yn derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl, ac yna yn Ysbyty Gwynedd. Bellach mae Dafydd yn Ysbyty Eryri. Rydym yn gyrru ein dymuniadau gorau i ti, Dafydd, am wellhad llwyr a buan, ac rydym yn edrych ymlaen i'th gael yn ôl yn cerdded yr ardal.

**Cofion**
Rydym yn gyrru ein cofion cynnes at rai o drigolion yr ardal sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar, a bellach wedi dod adref.
Hedd Williams, Tai'r Cae
Rhian Roberts, Ffordd Gerlan
Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan
Richard Williams, Ciltrefnus

Rydym yn gobeithio eich bod i gyd yn gwella, ac rydym yn dymuno'r gorau i chi

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Tecwyn Hughes, 25 Ffordd Gerlan, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 85 mlwydd oed ar 10 Mai. Digwyddodd y dathliad yn Frongoch, ger Caernarfon - y teulu wedi trefnu yn "ddistaw bach"!

Mae Tecwyn yn ddiolchgar iddynt, ac yn diolch hefyd i bawb am gofio amdano.
Dyn ei filltir sgwâr fu Tecwyn erioed, ac fel y gŵyr rhai ohonoch mae wedi ei eni a'i fagu yn ei gartref presennol. Bu'r teulu yn byw yno ers 1872!
Gosodwr brics fu Tecwyn wrth ei alwedigaeth, gan weithio i Awdurdod Môn ac Arfon am 32 mlynedd.

Dymuniadau gorau ar gyrraedd y garreg filltir hon.



**Dyma lun o Tecwyn yn torri'r gacen.**

**Hen daid**
Llongyfarchiadau mawr i Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, ar ddod yn hen daid. Ganed merch fach, Imogen Mair, i'w ŵyr, Simon a'i bartner, Ceri, sy'n byw yng Nghaer. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Pen-blwydd**
Dathlodd Sion Wyn Owen ei ben-blwydd yn 21 oed y mis yma. Llongyfarchiadau mawr i ti, Sion. Gobeithio i ti fwynhau dathlu'r pen-blwydd arbennig hwn. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

**Llwyddiant**
Roedd rhai o drigolion y Gerlan yn aelodau o Gôr Glanaethwy a wnaeth mor arbennig o dda yn y rhaglen Britain's Got Talent gan ddod mor agos at gipio'r brif wobr. Llongyfarchiadau mawr i chi ar eich llwyddiant.

# Talybont

**Neville Hughes,**
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

**Ysbyty**
Mae'r canlynol wedi bod am driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Rhian Haf, Bro Emrys, Sandra, 13 Dolhelyg a Cai Smith, Bro Emrys. Dymunwn wellhad buan i'r tri ohonoch.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Rhian Haf, Bro Emrys, a gollodd ei thad yn ddiweddar. Roedd yn byw yn Sir Fôn.

## Eglwys Maes y Groes

**Pererindod**
Ar y Sul olaf o fis Mai fe fu aelodau'r 6 eglwys ar bererindod i Sir Fôn gan ddechrau yn Eglwys Llandegai gyda gwasanaeth byr. Yn ein blaenau wedyn i Eglwys Biwmares ble cawsom groeso gan y warden John Jones a'i wraig Sheila. Hwy fyddai'n ein harwain ar hyd y daith. Trafeilio ychydig ymhellach i Eglwys y Priordy, Penmon, a chael gwasanaeth o Gymun Bendigaid dan arweiniad ein ficer, y Parchedig John Mathews. Erbyn hyn roedd yn amser cinio gyda rhai yn dewis cael picnic, ond y mwyafrif yn cael pryd yn y Bistro yn Henllys.

Wedi'r cinio, ymlaen i eglwysi Llanfaes a Llaniestyn gan ddilyn John a Sheila ar hyd ffyrdd culion iawn gyda golygfeydd bendigedig. Cawsom dipyn o hanes y ddwy eglwys hynafol, ac am Sant Iestyn, gan ein ficer.

Hoffem ddiolch i John a Sue Mathews am drefnu'r diwrnod, ac i John a Sheila Jones am ein tywys yn ddiogel. Hefyd i Phyllis Davies am drefnu'r cinio blasus iawn. Diwrnod diddorol a phawb wedi mwynhau eu hunain.

**Te Mefus**
Cofiwch am ein Te Mefus blynyddol a gynhelir yn Ysgoldy Maes y Groes, ar Sadwrn, 27 Mehefin (wedi newid o'r 20fed) o 2 o'r gloch tan 4.00 . Croeso cynnes i bawb.

## Capel Bethlehem

### Oedfaon y Sul

Mehefin 21: Parchg. Megan Williams, Porthaethwy;
Mehefin 28: Gweinidog;
Gorff. 05: Parchg. Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan;
Gorff. 12: Gweinidog Oedfa Deuluol;
Gorff. 19: Mr. T. Alun Williams, Caernarfon;
Gorff. 26: Parchg. Geraint S. R. Hughes, Pwllheli.

**Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.**
**Croeso cynnes i bawb.**

**Yr Ysgol Sul**
Llongyfarchiadau i blant Ysgol Sul Bethlehem ar gael eu gwobrwyo yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghapel

Carmel, Llanllechid, ym mis Mai. Dyma ran o'u gwaith a ddangoswyd ar ddiwrnod y Gymanfa




# Te Mefus

7.00 o'r gloch nos Fercher,
1 Gorffennaf

y cynhelir ein te mefus eleni.

# Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**
Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub
LL57 3LW
☎ **601880**

**Brysiwch Wella**
Mae nifer o drigolion wedi derbyn triniaethau mewn ysbytai dros yr wythnosau diwethaf. Yn eu plith mae Alice Jones, Tan y Garth, Margaret Roberts, 'Rhen Ysgol, Christine Jones, 'Rhen Ysgol a Glenys Jones, Bron Bethel. Gobeithio eu bod yn gwella.

**Clwb Llanllechid**
Cyfarfu'r Clwb ar 20 Mai a chafwyd cyfle i groesawu nifer o aelodau yn ôl wedi iddynt ddioddef anhwylderau. Croeso arbennig i Betty sydd wedi cael llawdriniaeth a mwy nag un ymweliad a'r ysbyty, ac i Margaret Roberts sydd wedi bod yn yr Ysbyty. Anfonwn ein cofion hefyd at Christine Jones, hithau heb fod yn bresennol ers nifer o gyfarfodydd ac roedd yr aelodau am ddymuno'n dda iddi ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Croesawyd dwy aelod newydd sef, Olwen Williams ag Eileen Evans. Mae croeso mawr i aelodau newydd yn y clwb. Y siaradwraig wadd oedd Mrs Sera Davies, Rhostryfan. Mae Sera yn gweithio'n llawn amser ac yn gwirfoddoli i Sefydliad Prydeinig Y Galon, achos sy'n agos iddi gan ei bod hi wedi dioddef anhwylder y galon ers ei geni ac wedi derbyn cymorth a gofal dros y blynyddoedd ac yn dal i ymweld ag Ysbyty'r Galon, Manceinion. Soniodd am waith y Sefydliad a'r ffyrdd y maent yn mynd ati i godi arian i gynnal y gwaith.

Myfanwy a Vera oedd yng ngofal y te ac fe roddwyd y wobr lwcus gan Glenys, gyda Margaret Roberts yn ei ennill.

**Nain Hapus**
Llongyfarchiadau i Mrs Margaret Bowen Rees ar ddod yn nain unwaith eto wrth i Gruff a'r teulu yng Nghaerdydd groesawu mab i'r teulu.

**Llwyddiant Eisteddfodol**



**Efa Glain**

Rydym i gyd yn falch o gael llongyfarch dau o'r ardal a gafodd lwyddiant ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd, Caerffili. Daeth Efa Glain Jones, Llwynpenddu Isaf yn ail ar yr unawd blwyddyn 3 a 4 a daeth Gwydion Rhys, Bron Arfon yn drydedd yn y gystadleuaeth unawd llinynnol ar gyfer blwyddyn 7-9 oed. Cafodd Gwydion hefyd y wobr gyntaf am gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer llais a phiano.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt.



**Gwydion**

**Athletwraig**




Llongyfarchiadau i Erin Wyn Davies, Tŷ Capel, Llanllechid ar ei llwyddiant yng ngemau Pencampwriaeth Athletaidd Gogledd Cymru yn Nhreborth ar 23 Mai. Cynrychioli Ysgol Dyffryn Ogwen oedd Erin a daeth yn gyntaf yn y ras dros glwydi, yn ail yn y naid hir a hefyd yng nghystadleuaeth y naid uchel.

**Cydymdeimlo**
Ar 1 Mehefin bu farw Mrs Eirwen Williams, Llys Alaw hithau'n 83 mlwydd oed, a hynny gwta pum mis wedi colli ei gŵr Griff. Roedd Mrs Williams yn berson tawel a bonheddig a oedd wedi bod yn wael ers peth amser bellach. Gwelwyd ei cholli o'r pentref ers misoedd pan orfu iddi fynd am ofal mewn cartref nyrsio. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Gwyn, Menna, Einir, Elfed, Llinos a Siôn a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth o golli mam, nain, chwaer a chwaer-yng-nghyfraith annwyl iawn.

Anfonwn ein cydymdeimlad at y Cyng a Mrs Godfrey Northam yn eu profedigaeth o golli chwaer-yng-nghyfraith yn Ne Cymru.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Michael, Keilly a'r teulu, Lôn Groes ar achlysur trist marwolaeth tad Michael, Billy (Campbell) Williams ym Methesda ar ddydd Sadwrn 6 Mehefin.

**Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid**
Daeth criw da iawn i festri Carmel i wrando ar sgwrs am hanes cychwyn pentref Rachub gan y Dr John Llewelyn Williams. Roedd yn ddiddorol clywed am y pentref yn tyfu o fod yn ardal wledig iawn yn cynnwys ychydig o ffermydd i fod yn ardal ddiwydiannol a chymdeithasol tu hwnt. Roedd Eglwys Llanllechid yn ddylanwadol, yn ogystal â'r chwareli, y capeli a'r tafarndai. Roedd gwahanol berchnogion ar wahanol rannau o Rachub, sef Stadau Coetmor a'r Penrhyn, Bryn Pistyll a Ty'n Ffridd, ond roedd rhannau o Rachub, hefyd, yn hollol annibynnol o berchnogion tir, a dyna, mae'n debyg yw achos y strydoedd bach unigryw a geir yn y pentref ei hun - dim un ohonynt o'r un maint, hyd na lled! Mor wahanol yw tai unffurf Rhes Penrhyn! Diolch yn fawr i Dr J Ll Williams am ddarlith wych!

## Capel Bethel

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| Meh. | 21 | Dr. Tudor Ellis. |
| Meh. | 28 | Parchg. Ddr. Huw John Hughes. |
| Gorff. | 05 | Parchg. Dewi Morris. |
| " | 12 | Gweinidog. |
| " | 19 | Mr. Dafydd Iwan. |
| " | 26 | Parchg. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam. |

**Oedfaon am 2.00 o'r gloch**
**Croeso cynnes i bawb**

# Nant Ffrancon

## Capel Nant y Benglog

**Mehefin**

| | |
|---|---|
| 21 | Mr. Norman Closs Parry |
| 08 | Mrs. Mair Penri Jones |

**Gorffennaf**

| | |
|---|---|
| 05 | I'w gyhoeddi |
| 12 | Mr. Huw Tegid Roberts |
| 19 | Yng ngofal Robat Thomas |
| 26 | Y Parchg. Carys Ann |

**Oedfaon am 2 o'r gloch.**
**Croeso cynnes i bawb**

# Capel Carmel

**Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Bangor a Bethesda**

Roedd Capel Carmel Llanllechid yn fwrlwm o sŵn plant ar fore Sul, 17 Mai. Yn wir roedd llawr y capel yn llawn o blant ac oedolion ar gyfer y Gymanfa flynyddol, a'r capel wedi ei addurno'n lliwgar gyda gwaith y plant yn cael lle amlwg.

Cychwynnwyd ar y gweithgareddau gyda gair neu ddau o groeso gan lywydd y cyfarfod, sef Elin Mair Jones, merch ifanc o Garmel, cyn iddi wahodd plant a phobol ifanc Carmel i ymgymryd â'r rhannau arweiniol. Dechrau ardderchog i'n rhoi yn y cywair priodol ar gyfer gweddill y cyfarfod.

Yna cyflwynodd Elin yr arweinydd cerddorol, Mrs. Valerie Ellis o Eglwys Pendref, a'r gyfeilyddes, Mrs. Rhian Roberts, o Garmel, ac fe gafwyd canu bywiog gan y plant a'r oedolion o dan arweiniad Mrs. Ellis.

Yn ystod y cyfarfod gwobrwywyd 79 o blant a phobol ifanc am eu gwaith yn yr Ysgolion Sul ar hyd y flwyddyn. Derbyniodd pob un ohonynt dystysgrif ynghyd â gwobr ariannol o ddwylo'r trysorydd, Mr Joe Hughes. Diolch i'r arholwyr, Mrs. Marian Jones, Carmel, Mrs. Eirian Jones, Nant y Benglog, a Miss Iona Jones, Peniel, Waen Pentir, am ymweld â'r Ysgolion Sul ym Methlehem Talybont, Carmel Llanllechid , a Phendref/Penuel, Bangor, i gloriannu gwaith y plant.

Diolchwyd i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y Gymanfa gan yr ysgrifennydd, Mr. Neville Hughes, cyn i'r cyfarfod ddod i ben ar nodyn uchel gyda Mrs. Valerie Ellis yn ein harwain i ganu, a dyblu cytgan yr emyn adnabyddus, "Cân Hosanna".



**Rhai o blant Carmel gyda'r gwobrau yn y Gymanfa.**

Yng nghanol y llun y mae Efa Jones a gafodd ail wobr yn Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau oddi wrth bawb yn yr Ysgol Sul iddi hi ac i Gwydion Rhys am ei lwyddiant yntau yn yr Eisteddfod.)

**Symud tŷ**
Croeso i Fiona Sherlock a Lowri sydd wedi symud i'r Tŷ Capel yn ystod y mis diwethaf.

**Carmel Llanllechid**
**Te bach**
Yn y Festri
Dydd Llun, 22 Mehefin
2.30 – 4.00
**Croeso i bawb.**

## Cymhorthfa Hywel Williams, AS,

Yn Festri Carmel, Llanllechid

**Dydd Gwener, 10 Gorffennaf**

**2.30 – 3.30**

## DRINGO I GODI ARIAN

Mae Ceri Morgan o Dyddyn Canol, Rachub yn brysur yn paratoi ar gyfer taith fythgofiadwy.



Mae hi ac un ar ddeg arall yn mynd i ddringo'r mynydd Kilimanjaro yn Ne Affrica. Y bwriad yw codi arian at yr elusen 'Dig Deep.' Nod Ceri yw codi £3000 erbyn dechrau mis Gorffennaf er mwyn sicrhau ei bod yn cael mynd ar y daith.

"Byddaf yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw nawdd, byddai cyrraedd y nod gyda chymorth pobl Dyffryn Ogwen yn ffantastig," meddai Ceri. Eisoes mae wedi cynnal nifer o weithgareddau fel taith gerdded, boreau coffi i chwyddo'r coffrau.

Cychwynnwyd yr elusen yn y flwyddyn 2007 gan ddau gyfaill, Jo Zeevi a Peter Fitzsimmons, y ddau yn fyfyrwyr ym Mhrifysgolion Nottingham ac Exeter. Bwriad yr elusen yw paratoi dŵr glân a charthffosiaeth i bobl yn Kenya. Yn ôl yr elusen dyma ddau beth sy'n wirioneddol angenrheidiol i sicrhau iechyd y bobl leol a gwneud bywyd yn llawer haws i dros 30 miliwn o bobl Kenya sydd ddim yn derbyn y math yma o wasanaeth.

Byddant yn ei gwneud yn bosibl i'r trigolion dderbyn dŵr glân drwy osod pibellau yn arwain at dapiau arferol a leolir yn agos at le mae'r bobl yn byw a chodi adeiladau addas ar gyfer cael gwared â gwastraff. Mae'r elusen yn cydweithio ac yn addysgu'r bobl leol sut i ddefnyddio'r cyfleusterau a'r dechnoleg sy'n gweithio'r systemau. Mae arweinwyr lleol yn cael eu dewis a hwy fydd yn addysgu'r bobl leol am beryglon afiechydon gan geisio newid meddylfryd y bobl leol ynglŷn â glanweithdra. Drwy benodi rheolwyr a chynrychiolwyr yn lleol, mae'r elusen felly yn gallu adeiladu cysylltiadau hirdymor rhyngddynt a'r bobl leol. Bydd yn cymryd hyd at bum mlynedd i sicrhau bod y systemau'n gweithio ac i bobl leol eu deall yn iawn, fel bod y cynllun yn gweithio yn effeithiol yn yr ardaloedd.

Os hoffech noddi Ceri ar y daith gallwch gysylltu drwy wefan arbennig sef, Cerim88@hotmail.com , neu gallwch gysylltu â Ceri ar y rhif ffôn 07568578748. Pob llwyddiant i Ceri yn y fenter arbennig hon.

# Capel Carmel

## Trefn Gwasanaethau

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin | 21 | Parchg. Marcus W. Robinson |
| Mehefin | 28 | Ein Gweinidog |
| Gorff. | 05 | Ein Gweinidog (Cymun) |
| Gorff. | 12 | Mr. J. O. Roberts |
| Gorff. | 19 | Miss Nerys Jackson |

Oedfaon am 5 o'r gloch
oni nodir yn wahanol.

Ysgol Sul am 10.30.
Clwb Dwylo Prysur, nos Wener am 6.30.
Te Bach: Dydd Llun, 22 Mehefin, 2.30 – 4.00.

**Croeso cynnes i bawb.**

# Braichmelyn

**Rhiannon Efans,**
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ **600689**

**Salwch**
Bu Mr Ithel Owen yn yr ysbyty'n ddiweddar, ond y mae gartref erbyn hyn. Anfonwn ein cofion ato.

Hefyd mae Mrs Norma Jones, 2 Pen y Graig yn yr ysbyty ac anfonwn ein cofion ati hithau hefyd.

**Ar "Countryfile"**
Braf oedd gweld Ioan a Catrin Doyle, 14 Braichmelyn, yn serennu ar raglen deledu unwaith yn rhagor

Mae llawer ohonom wedi mwynhau dilyn campau Ioan fel dringwr ardderchog ers tro, ac yn ddiweddarach fel bugail a ffarmwr defaid. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch ar eich ymddangosiad ar y rhaglen ddifyr hon.

## Darllen i'r Deillion

Mae angen gwirfoddolwyr
i ddarllen a recordio ar gyfer y deillion.

Os oes gennych chi ddiddordeb i fod
ar y rhestr darllenwyr wrth gefn
cysylltwch ag Alwenna ar
01248 351387

## Cynllun Gerddi Cenedlaethol

**Diwrnod Agored**
(er budd elusennau)
yn

Llys y Gwynt Ffordd Pentir

11.00 – 4.00 Dydd Sul, 5 Gorffennaf

Mynediad £3.00, Dim tâl i blant, Planhigion ar werth

# Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái ☎353886

**Marwolaeth**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Tecwyn Morris, 8 Glantraeth, Bangor, ar 28 Ebrill. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, 7 Mai. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i annwyl wraig, Dilys, ei blant Norma, Kathleen a Gaynor a'r teulu oll yn eu galar.

Yn Ysbyty Gwynedd, ddydd Gwener, 22 Mai, bu farw Mrs Olwen Latham yn 95 mlwydd oed, gynt o Dan y Bryn, Llandygái. Roedd wedi ymladd yn ddewr i gael aros yn ei chartref ond fe aeth pethau'n drech na hi. Aeth i fyw i Gwynfa, cartref preswyl Bontnewydd. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, 4 Mehefin. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

**Gwaeledd**
Dymunwn adferiad iechyd buan i Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Moyra Muir, Cassie Tindall, Ann Wheldon, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams. Anfonwn ein cofion anwylaf atoch i gyd.

Pen-blwydd
Bydd Ceri Jones, 4 Pentre Llandygái gynt, yn cael ei phen-blwydd yn ugain oed ddydd Iau, 9 Gorffennaf. Dymuniadau gorau iti Ceri, a gobeithio y cei ddiwrnod llawn hwyl.

**Diolch**
Diolch unwaith eto i Dei Edwards a Peter Bullen am dorri gwair y fynwent yn Llandygái. Mae'r ddau yn garedig iawn yn llafurio'n galed yn tacluso o gwmpas yr eglwys ac oddi fewn fel y bo'r angen – mawr yw ein dyled iddynt.

**Bore Coffi**
Fore Sadwrn, 20 Mai, yn Sŵn y Coed, Llandygái, cartref Dei ac Eirlys Edwards, cynhaliwyd Bore Coffi er budd Bro Deiniol a Chymorth Cristnogol. Roedd yn fore sych braf a'r ardd fel arfer yn hardd, a bu'n fore llwyddiannus. Diolch i Dei ac Eirlys am eu croeso. Gwnaed elw o £500.

## Eglwys Sant Tegai

Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf
Fore Sul, 10 Mai, yng ngwasanaeth y cymun, buom yn cofio am yr is-ringyll Thomas Drew, Gerddi Penrhyn, aelod o Gatrawd Lerpwl y Brenin, a fu farw ar 13 Mai 1915 ac a gladdwyd ym mynwent Etreat, Gogledd Ffrainc. Diolch i Judith a Muriel am ddarllen y gweddïau ac i John Bagnall am yr ymchwil.

Gwaeledd
Ein dymuniadau gorau i Robert Marshall, mab Betty, a gafodd drawiad ar y galon a'i ruthro i'r ysbyty yn ddiweddar. Y mae gartref erbyn hyn ac yn gwella yn araf deg. Llwyr wellhad i chi Robert. Bydd Sally a Thomas yn siŵr o edrych ar eich ôl. Anfonwn ein cofion cywiraf at Jane Couch, Ben Cramb, Gwynne Edwards, Enid Gardner, Harry Gross, Dian Hughes, y Parchedig Aelwyn Roberts ac Audrey McSorley – brysiwch wella.

Priodas
Ar ddydd Sadwrn, 23 Mai, yn Eglwys Sant Tegai, cynhaliwyd priodas Sophie Elizabeth Jones a Colin Garry James-Davies. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig John Matthews. Dymunwn iechyd a phob hapusrwydd i'r pâr ifanc.

Bingo
Nos Fawrth, 26 Mai, cynhaliwyd Bingo er budd yr eglwys yn Neuadd Talgai a bu'n noson hwyliog a llwyddiannus a wnaeth elw o £193. Diolch o galon i bawb – rydym un cam yn nes at ddechrau atgyweirio'r eglwys.


Pen-blwydd
Dymunwn ben-blwydd hapus i Hefina a fydd yn dathlu ar 25 Mehefin, a Huw Llewelyn ar 30 Mehefin. Gobeithio y cewch ddiwrnod wrth eich bodd. Bydd Thomas Stevens, ŵyr Hefina, yn cael ei ben-blwydd yntau ar 6 Gorffennaf yn ugain oed. Pob hwyl iti Thomas.

Diolch
Llawer o ddiolch i'r Tra Pharchedig Trevor Evans a'r Barchedig Christina McRea am wasanaethu yn y cymun fore Mercher 20 a 27 Mai. Hefyd i Gary Peel yn y Foreol Weddi, 24 Mai. Roeddem yn falch o gael eich croesawu yn absenoldeb y Parchedig John Matthews.

# Glasinfryn Caerhun

**Marred Glynn Jones**
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor
LL57 4UP **01248 351067**
Marred567@btinternet.com

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Huw a Siân Griffiths, Penhower Uchaf, Caerhun, ar eu priodas ar 2 Mai yng Ngharreg Lwyd, Llanfaethlu. Sandra Owen oedd y Cofrestrydd yn y Seremoni Priodas.



Yn dilyn y seremoni, bendithiwyd y briodas gyda'r Parchedig Euros Jones yn gwasanaethu, a James Griffiths yn cyfeilio i'r emynau.

Wedyn, bedyddiwyd eu merch Lydia Gwen, gyda'r Parchedig Euros Jones yn gwasanaethu unwaith eto. Glain Dafydd, Pentir, oedd y delynores. Pob dymuniad da i'r teulu bach ar gyfer y dyfodol.

Dymuna Huw a Siân ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

**Ar y radio**
Bu Marian Bryfdir Jones, Bro Eryri, Waen Wen, sy'n gantores ac yn hyfforddwraig, ar raglen Shân Cothi ar Radio Cymru'n ddiweddar, sef Bore Cothi. Mae gan Shân "slot" Cysylltiadau Cerddorol, a Marian oedd ei dewis ar 3 Mai. Dewisodd ddwy record, un o Teresa Berganza, soprano enwog mae Marian wedi canu efo hi yn Glynebourne, yn canu darn o Briodas Figaro gan Mozart. Ei hail ddewis oedd Rolando Villazon yn canu cân allan o Tosca. Yn ôl Marian mae'n un o'r cantorion sydd wedi perffeithio ei grefft. Roedd hi wedi dewis y darn yma hefyd am mai dyma'r darn a gafodd ei chwarae ar ddydd ei phriodas â Dewi, ddwy flynedd yn ôl!

Dymuniadau gorau i Marian ar ei thaith i Shanghai, yn Tsieina, i gynnal dosbarthiadau Meistri mewn canu ar waith Mozart yn y Brifysgol yno. Anrhydedd yn wir!

**Cyfarfod Blynyddol**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Canolfan Glasinfryn nos Lun, 22 Mehefin am 7.00yh, a hynny yn y Ganolfan, wrth gwrs. Croeso cynnes i bawb.

**Newyddion trist**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Eric Parry ar 6 Mai yn dawel yng nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli. Daw Mr Parry yn gynt o 53 Bro Infryn, ac yn fwy diweddar, o gartref Plas Ogwen, Bethesda.

Mae ei deulu yn dymuno diolch i bawb am yr holl gardiau a'r rhoddion maen nhw wedi eu derbyn. Bydd yr arian a dderbyniwyd yn mynd tuag at staff cartref Plas Ogwen.

**Sefydliad y Merched**
Llywyddwyd ein cyfarfod ar nos Fercher 13 Mai gan Ann Illsley. Croesawyd yr aelodau a llongyfarchwyd Jocelyn ar ddod yn nain i Oscar, mab bach i'w mab Joe a'i bartner Kerri.

Trafodwyd dathliadau canmlwyddiant y sefydliad a deallasom fod nifer o'r aelodau yn mynd gyda'r trên i ben yr Wyddfa ar 20 Mehefin.

Bu trafod ar y penderfyniad i fynd ymlaen i Neuadd Albert. Ingrid yw ein cynrychiolydd ni a'r penderfyniad eleni yw 'Methiant Gofal ac Asesu Gofynion mewn Gofal Tymor Hir.'

Roedd nifer o'r aelodau wedi cael profiad o hyn gyda pherthnasau a chan fod y penderfyniad yn amlochrog penderfynwyd y dylai Ingrid roi'r penderfyniad gerbron yn Neuadd Albert ar y diwrnod, ar ôl iddi glywed y siaradwyr ar y pwnc.

Diolch i Mair am drefnu prynhawn ym Mhlas Maenan i weld arddangosfa gosod blodau. Am weddill y noson bu pedwar aelod dawnus yn dangos a siarad am eu crefftau sef Ingrid, Jocelyn, Sarah, a Margaret Hughes. Dangoswyd gwaith o safon uchel iawn.

Ann a Christina oedd yn paratoi'r baned a rhoddwyd y raffl gan Glenys. Fe'i henillwyd gan Elizabeth.

# Pentir

**Anwen Thomas,**
Min yr afon, 11 Rhydygroes,
Pentir
☎ **01248 355686**

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Marteg Dafydd o Bentir am ennill cystadleuaeth y delyn bl.7-9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili yr wythnos diwethaf. Hon ydy'r bedwaredd flwyddyn yn olynol iddi ennill ar y delyn.




**Marteg gyda'i thlws**

**Triathlon**
Llongyfarchiadau hefyd i Cedol Dafydd ar ennill cystadleuaeth ieuenctid triathlon yn Rhuthun. Yn dilyn y llwyddiant hwn, mae o wedi cael ei wahodd i hyfforddi gydag athletwyr yr Academi.

**Llwyddiant Sacsoffon**
Yn ddiweddar, llwyddodd Menai Lamers James o Bentir yn ei arholiad gradd 8 ar y sacsoffon gydag anrhydedd. Llongyfarchiadau mawr iawn iddi hithau.

## Eglwys St. Cedol, Pentir

**Clwb 100 Mis Mai 2015**

1af 60 Laura Hosker, Deiniolen

2ail 28 Dafydd Roberts, Llanberis

3ydd 62 Alison Roberts, Rhiwlas

**Garddwest**
Cynhaliwyd ein Garddwest flynyddol eleni yn Eglwys St.Cedol, Pentir, ar brynhawn Sadwrn 23 Mai.

Roedd amryw o stondinau ac roedd cystadleuaeth arbennig i blant Ysgol Rhiwlas, sef Cwpan Goffa Leslie Crocombe. Enillydd yr Adran Babanod oedd Sion Jones Bl 1, ac enillydd yr Adran Iau oedd Mia Owen Bl 6.

**Dyma enillwyr y raffl:**
Raffl y deisen:
John Evans, Llys y Gwynt
Raffl y llun
(rhoddedig gan Alan Jones, Waun Wen): Jim Frith, Sling
Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth ar ddiwedd y prynhawn llwyddiannus a fwynhawyd gan lawer. Yn dilyn yr arddwest cafwyd pryd blasus yn Nhafarn y Pedwar Croes, Porthaethwy.

**Bingo**
Cynhaliwyd noson o Fingo yn y Ganolfan; Glasinfryn, nos Wener 29 Mai. Roedd yn noson hwyliog a hynod o lwyddiannus. Diolch i bawb am y gefnogaeth.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Pam Jones, Llanddeiniolen, sydd yn gwella gartref ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain yn ei chartref. Brysiwch wella Pam.

Hefyd anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Janet Rees, Pentir a Mrs. Avrill Thomas, Rhyd y Groes, gan nad yw'r ddwy yn dda eu hiechyd. Pob bendith i'r ddwy ohonoch.

**Gwasanaethau'r Sul**
Bydd y gwasanaethau a ganlyn yn cael eu cynnal am 9.45 y bore, mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau:

21.6.15 Cymun Bendigaid
28.6.15 Boreol Weddi
4.7.15 Cymun Pawb
12.7.15 Boreol Weddi
19.7.15 Cymun Bendigaid
26.7.15 Boreol Weddi

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ **600192**

**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ **601544**

**Priodas**
Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd i Catrin, merch Peter a Dulcie Roberts, 1 Ffrwd Galed a Huw Geraint Jones, Bron Arfon, Rachub ar eu priodas ddechrau Mai. Mae Catrin a Huw wedi ymgartrefu ym Mhenisarwaun, ac maent yn ddiolchgar iawn i deulu a ffrindiau am yr holl ddymuniadau da ac am eu caredigrwydd.

**Diolch am ddosbarthu**
Diolch o waelod calon i Gomer ac Ann Davies, Penrallt, Tal y Cae, Tregarth, am weithio mor ddiflino yn plygu a dosbarthu Llais Ogwan, yn fisol, yn ardal Talgae a Thal y Cae, Tregarth am nifer dda o flynyddoedd a hynny gyda gwên a sgwrs ac ym mhob tywydd. Gwerthfawrogwn yn fawr eich ymroddiad i'r Llais a mwynhewch y darllen o hyn ymlaen. Mawr yw ein diolch i Beryl a Roy Hughes, Meini Gleision am fod mor barod i gario gwaith Gomer ac Ann ymlaen i'r dyfodol.

**Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Buddug Roberts, Pen y Ffriddoedd, am ei llwyddiant gwych yn adran Barddoniaeth a Rhyddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili ym Mis Mai. Dalied ati Buddug.

## Capel Shiloh

**Gwellhad**
Gwellhad buan i Mrs Roma Griffiths, Llanllechid, sydd wedi bod yn glaf yn Ysbyty Gwynedd ers rhai wythnosau. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn gobeithio y cewch ddod adre'n fuan a theimlo ychydig yn well.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Eurwen Pennant Lewis, Llanfairpwll a Mrs Brockelbank, Bro Syr Ifor, sydd wedi methu â dod i'r oedfaon yn ddiweddar.
Cofion at eraill o'r aelodau sydd heb fod yn teimlo'n rhy dda yn eu cartrefi yn ystod cyfnod y tywydd oer. Gobeithio eich croesawu yn ôl i'r oedfaon gan fod y tywydd yn dechrau cynhesu.

**Gair o ddiolch**
Fe hoffai Gwenda Davies, Bodiwan, Llanfairpwll, ddiolch o waelod calon i blant, ieuenctid a rhieni Ysgol Sul Shiloh a holl aelodau Capel Shiloh am y Te Parti ardderchog, y rhoddion a'r holl gardiau a dderbyniodd ar ei hymddeoliad o fod yn gofalu am yr Ysgol Sul yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n gwerthfawrogi'r holl haelioni ac yn diolch am gael y cyfle o weithio gyda'r plant, yr ieuenctid a'r rhieni ar hyd y blynyddoedd.. Diolch o galon i bob un ohonoch am eich cefnogaeth a'ch caredigrwydd.

**Ysgol Sul Shiloh**
Bu rhai o aelodau Ysgol Sul Shiloh yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili ar ddiwedd Mis Mai. Roedd Myfi Celyn yn aelod o griw Cân Actol Ysgol y Garnedd ac fe gawsant gyfle i gystadlu ar y llwyfan mawr ar Nos Lun yr Eisteddfod, Ni ddaethant i'r tri cyntaf eleni ond roedd eu perfformiad yn ardderchog. Roedd Shwnamis Efans, yn aelod o Grŵp Offerynnol Ysgol Llanfairpwll a gwnaethant hwythau eu gwaith yn wych ar lwyfan y Brifwyl. Bu Nel Mai a Myfi Celyn yn cystadlu yn y gystadleuaeth Cyflwyniad Dramatig i Ysgolion Cynradd gydag Ysgol y Garnedd a daethant adre gyda'r ail wobr. Llongyfarchiadau i'r tair ohonoch ar eich llwyddiant.

### Gwasanaethau

Mehefin 21 Trefniant Lleol
Mehefin 28 Miri Mehefin am 2.00
Gorffennaf 5 Parchedig Philip Barnett
Gorffennaf 12 Parchedig Harri Parri, Caernarfon
Gorffennaf 19 Mr J.O. Roberts, Bethesda
Gorffennaf 26 Parchedig John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin
Awst Dim Gwasanaethau

**Ysgol Sul 10.30** **Oedfa 5.00**

### Miri Mehefin
**(Cymanfa Ysgolion Sul Arfon)**

### Capel Shiloh, Tregarth

Mehefin 28 am 2.00

Arweinydd Wyn Thomas, Bangor
Cyfeilydd D.Wyn Williams, Tregarth

Te Parti yn dilyn y Miri!
Croeso cynnes iawn i bawb

## Clwb 100 Canolfan Tregarth

| Mis Ebrill | | Mis Mai | |
|---|---|---|---|
| 1 Margaret Jones | £15 | 37 Angharad Williams | £15 |
| 45 Dafydd Owen | £10 | 10 Rhys Llwyd | £10 |
| 28 Laura Jones | £5 | 28 Laura Jones | £5 |

## Cymhorthfa

Alun Ffred Jones, AC,
Yng Nghanolfan Tregarth
Dydd Gwener, 26 Mehefin
3.00 – 4.00

## Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Tregarth Mis Mai ar 11 Mai yn Festri Capel Shiloh. Daeth nifer dda o aelodau ynghyd i wrando ar Elin Alaw o Ddyffryn Conwy yn siarad am ei gwaith , sef Homeopathegydd. I lawer ohonom roedd y term homeopatheg yn ddiarth a chymhleth ac roedd pawb yn awyddus iawn i wybod mwy. Dywedodd y siaradwr fod yr homeopathegydd yn edrych ar y person cyflawn o'i gymharu â meddyg sydd yn rhoi sylw i'r salwch yn unig. Mae'r gair 'Homews' yn dod o'r iaith Groeg ac yn golygu 'tebyg' a'r gair patheos sy'n golygu 'dioddefaint'. Felly ei ystyr cyflawn yw 'dioddefaint tebyg'. Roedd meddyg o'r Almaen , sef Samuel Haniman, yn anhapus gyda'r dulliau o drin y claf ac aeth ati i ymchwilio a darganfod fod tebyg yn gwella tebyg. Cawsom noson addysgiadol yng nghwmni Alaw ac roedd yn wir ddiddorol ei chlywed yn trin pwnc mor astrus mewn ffordd ddifyr. Diolchodd Alwena iddi a gwnaed y baned gan Carys, Beryl a Gwenda.

Ar 2 Mehefin trefnwyd gwibdaith y gangen gan Myfanwy, Allison ac Enid. Teithiwyd ar y Bws Gwyrdd i Gaernarfon ac yno ar y Maes roeddem i gyfarfod ein tywysydd am y noson, sef Emrys Llewelyn. Yn anffodus roedd y tywydd yn arbennig o stormus a bu'n rhaid newid y cynlluniau. Yn lle crwydro'n hamddenol braf o gwmpas Tre'r Cofi bu'n rhaid swatio yn adeilad y Clwb Rygbi a chael noson werth chweil yng nghwmni Emrys Bach yn sgwrsio'n afieithus am ei dre enedigol a dangos lluniau o rai o olygfeydd ac adeiladau hynod Caernarfon. Er na chawsom fynd ar droed i weld y lleoedd yn y lluniau roedd disgrifiad y Co yn lliwgar ac yn llawn hiwmor gwerth chweil. Noson fythgofiadwy a chafodd rai ohonom y pleser o brynu ei lyfr diweddaraf, sef 'Stagio Dre', o Wasg y Lolfa. Yna gorffen y noson yn yr hen ddull Cymreig drwy fwyta pryd o fwyd ardderchog yn y Gardd Fôn yn Y Felinheli.

Diolchodd Margaret ar ran yr holl aelodau i'r tair a fu'n gweithio mor galed yn ystod y flwyddyn yn paratoi ar gyfer pob cyfarfod ac am wneud hynny'n hwyliog , braf. Diolch Myfanwy, Allison ac Enid am ein tywys drwy flwyddyn wych yn enw Merched y Wawr, Cangen Tregarth.

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen,** Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái. ☎ **600744**

**Gwellhad**
Mae Bethan, Fferm Pen y Bwlch, wedi cael llawdriniaeth ond mae adre o'r ysbyty erbyn hyn. Hefyd, Iola Wyn Owen, a gafodd lawdriniaeth ar ôl damwain. Gwellhad buan i'r ddwy ohonoch!

**Clwb y Mynydd**
Cafwyd prynhawn difyr yng nghyfarfod mis Mai yn trefnu blodau mewn basged - hardd iawn! Fel arfer cafwyd paned a raffl, ac enillydd y fasged flodau oedd Helen Williams.
Ni fydd clwb ym mis Mehefin. Bydd y daith i'r Wyddgrug.

**Arholiadau**
Dymunwn y gorau i bobl ifanc y pentref sydd yn sefyll arholiadau mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd. Pob lwc i chi gyd.

**Diolch**
Dymuna'r Cynghorydd Gwen Griffith ddiolch i Mike Vichovitch, a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar yn ailrestru'r Lòn Drol o Ty'n Llidiart i Pen y Bwlch. Yn anffodus iawn, bu i Gyngor Gwynedd beidio â'i rhestru ar eu Map Diffiniol, felly wedi i Mike gyflwyno digon o dystiolaeth, mae'r Llwybr hwn yn ôl ar y map. Diolch o galon i Mike am ei ymdrechion.

## Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

### Gwasanaethau

| | | |
|---|---|---|
| Meh. 21: | 9.45 | Cymun Bendigaid |
| | 5 y.h. | Hwyrol Weddi (Cymraeg) |
| Meh. 28: | 9.45 | Boreol Weddi |
| Gorff. 5: | 9.45 | Gwasanaeth Teuluol |
| Gorff. 12: | 9.45 | Cymun Bendigaid |
| Gorff. 19: | 9.45 | Cymun Bendigaid |

Estynnwn groeso cynnes i bawb i'n gwasanaethau.

Anfonwn ein cofion cywiraf i'n holl gyfeillion yn y pentref sy'n sâl ar hyn o bryd a dymunwn adferiad iechyd buan i chwi oll.

Os oes unrhyw un yn dymuno cymun yn ei gartref cysylltwch ag un o'r wardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434).

# Rhiwlas

**Iona Jones**
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
**☎01248 355336**

**Yn yr Ysbyty**
Y mae Mr Griff Owen, Fron Deg, bellach yn Ysbyty Eryri ac yno y dathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed. Bu'r teulu yno gydag ef yn helpu gyda'r dathlu ac yn ôl a glywais roedd hwyliau da arno y diwrnod hwnnw. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau atoch.

Y mae Rhys Owen, Aralia, hefyd yn Ysbyty Gwynedd ac yn yr un modd dymunwn yn dda iddo yntau hefyd.

**Cydymdeimlo**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Peter Grace, Tan y Weirglodd Lodge, gŵr Sharon a thad Lawrence. Roedd y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd iddo. Roedd yn wreiddiol o Swydd Bedford a threuliodd nifer o flynyddoedd yn y Llynges ac roedd y creiriau morwrol yn y cartref yn brawf pendant o hynny. Symudodd Sharon i weithio i Swydd Hertford ac yno y cyfarfu â Peter pan oedd y ddau yn gweithio mewn ysgol breswyl. Ond yn 1995 symudodd y teulu yn ôl i Riwlas i 5 Tan y Weirglodd ac yna adeiladu eu cartref presennol. Bu'n gweithio fel cogydd mewn amrywiol lefydd nes i salwch ei orfodi i ymddeol. Roedd yn hoff iawn o gerddoriaeth glasurol ac roedd y recordiad o Nimrod gan Elgar yn effeithiol iawn pan oedd y gynulleidfa'n cerdded i mewn i'r amlosgfa lle cynhaliwyd yr angladd ar 22 Mai. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch John Mathews. Rydym yn cydymdeimlo ac yn anfon ein cofion at y teulu.

Y mae Sharon a Lawrence am ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod y cyfnod trist hwn. Maent hefyd am ddiolch am y rhoddion a gasglwyd er cof amdano tuag at yr RNLI.

Yn yr un modd rydym yn cydymdeimlo â theulu'r diweddar Mr Reginald Charles Ilsley, 20 Bron y Waun, gŵr Margaret a thad Thomas a Kevin a fu farw yng Nghartref Cerrig yr Afon. Roedd yn wreiddiol o Dde Lloegr ac wedi ymddeol, symudodd ef a Margaret, a fagwyd yng Nghaergybi, i Nefyn i ddechrau ac yna ymgartrefu yn Rhiwlas. Roedd yn ŵr tawel a chwrtais. Bu'r angladd yn amlosgfa Bangor ar 29 Mai a'r gwasanaeth yng ngofal y Parch Michael Shepherd. Fe gasglwyd arian tuag at Alzheimers.

**Llongyfarchiadau**
Y mae Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd wedi ei benodi yn Swyddog Gweithredol Cyngor Cymuned Pentir. Pob hwyl i ti yn y swydd Elwyn.

**Llwyddiant Eisteddfod leol**
Mewn eisteddfod leol cafodd Siwan Griffith, 5 Tan y Weirglodd y drydedd wobr am arlunio yn yr oedran meithrin. Da iawn ti Siwan.

**Dalier Sylw**
Mae'r sesiynau cadw'n heini yn mynd o nerth i nerth, mae dau gyfarfod yn awr, nos Lun a nos Iau am saith o'r gloch. Am fwy o wybodaeth cysyllter â Ffion 07443572998.

**Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**
Nodwyd nad oes modd ariannu cynllun i ddatblygu lle parcio yn Rhiwlas a mynegwyd bod angen tarmacio Stryd Uchaf Rhiwlas.

**Eisteddfota**
Bu Mis Mai yn un prysur i Annes Glyn yn rhinwedd ei swydd fel Derwydd Gweinyddol Eisteddfod Môn. Ar 2 Mai roedd seremoni cyhoeddi Eisteddfod Bro Paradwys 2016 yn Llangristiolus, ond yn anffodus roedd y diwrnod hwnnw ymhell o fod yn baradwysaidd gan iddi fwrw glaw drwy'r dydd. Felly gorfu cynnal y seremoni yn neuadd Ysgol Henblas. Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd Eisteddfod eleni, sef Eisteddfod Cylch Bro Goronwy yn Ysgol Uwchradd Amlwch a'r tywydd yn well y penwythnos hwnnw. Mae gan Eisteddfod Môn hanes hir ac anrhydeddus a chynhaliwyd yr eisteddfod fodern gyntaf yn 1906 ond mae hanes yr Eisteddfod yn ymestyn yn ôl oddeutu dau gant a hanner o flynyddoedd. Braf yw gweld y traddodiad yn parhau.

Hefyd y mae Annes yn un o feirniaid Llyfr y Flwyddyn eleni, mae'n awdur nofelau, llên meicro, storïau byrion ac wedi bod droeon ar Dalwrn y Beirdd. Roedd ei chyfrol Symudliw a enillodd y Fedal Ryddiaith iddi yn 2004 ar restr fer Llyfr y Flwyddyn yn 2005. Digon o brofiad felly.

**Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd**
Bu Hannah Cook, Garreg Lwyd, yn fuddugol eleni eto yng nghystadleuaeth rhyddiaith i ddysgwyr Blwyddyn 10 ac ll. Yn ogystal daeth yn drydydd am y Fedal i Ddysgwyr, sef y brif gystadleuaeth i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac rydym yn falch iawn o dy lwyddiant, dalia ati Hannah.

Cafodd ŵyr ac wyresau Elwyn a Margaret Jones, Fferm Tan y Weirglodd lwyddiant yn yr Eisteddfod hefyd. Daeth Catrin Fflur yn gyntaf am lun monocrom yn adran ffotograffiaeth Bl 7, 8, a 9. Roedd ei chwaer fach, Siwan Llwyd yn ail am brint lliw yn yr un adran ond i oedran Bl 2 ac iau. Gwneud gemwaith oedd arbenigedd Morgan Huw ac fe ddaeth yn drydydd yn yr adran yma. Mae'r tri yn aelodau o'r Urdd yn nalgylch Dyffryn Nantlle. Mae Taid a Nain yn hynod falch o'u llwyddiant. Rhaid llongyfarch y tri am wneud cystal.



**Llun o Taid Rhiwlas ac Owain ar ben boncan Cae Symars, (hen enw ar y cae yma)**

Bu Elliw Mai hefyd yn brysur yn ystod wythnos yr Eisteddfod, bu'n arwain y digwyddiadau sawl gwaith. Mae'n gyfarwydd iawn â'r llwyfan gan iddi gystadlu ac ennill ers yn ifanc. Roedd yn gwybod yn iawn sut i wneud y cystadleuwyr yn gartrefol.

Un arall o'r pentref a fu ar y llwyfan oedd Manon Steffan Ros, roedd yn feirniad yng nghystadleuaeth y Goron. Mae Manon yn awdures doreithiog, yn ysgrifennu i blant ac oedolion a hefyd yn ddramodydd llwyddiannus. Enillodd wobr Tir na- n-Og ddwywaith ac roedd ei nofel "Fel Aderyn" ar restr Llyfr y Flwyddyn yn 2010 ac enillodd Wobr Barn y Bobl Golwg360.

**Pêl droed**
Cafodd Steffan Alford, Caeau Gleision, ei ddewis i chwarae yn nhîm dan wyth oed Academi Clwb Pêl-droed Dinas Bangor. Llongyfarchiadau i ti Steffan a mwynha dy hun gyda'r clwb.

**Clwb Rhiwen**
Cyfarfod 6 Mai: Croesawyd ni i'r cyfarfod gan ein Llywydd, Ann. Cawsom gwis diddorol gan Beryl a Frances a Jean oedd yn fuddugol. Roedd y rhai a aeth i'r Galeri i weld ffilm wedi cael amser da yno. Trafodwyd ein hymweliad â Betws y Coed. Pam a Dee oedd yn gyfrifol am y te ac Ann enillodd y raffl.

20 Mai: Fe aethom i Fetws y Coed, rhai yn y car ac eraill ar y trên, roedd canmol i'r daith o Gyffordd Llandudno i Betws. Roedd y tywydd yn ffafriol a bu peth gwario yn y siopau ac yna roeddem yn cydgyfarfod i gael lluniaeth ysgafn cyn cychwyn am adre. Roedd pawb o'r farn i ni gael pnawn difyr yno.

## Merched y Wawr

Croesawyd ni i'r cyfarfod gan Annes, llywydd y noson. Anfonwyd ein cofion at Einir, mae ei thad yn yr ysbyty ers rhai wythnosau bellach.

Cafwyd adroddiadau da gan y rhai a fynychodd Ŵyl y pum rhanbarth. Cafwyd gwahoddiad gan gangen Deiniolen i fynd gyda hwy ar daith i'r Ysgwrn. Daeth cais i blygu Llais Ogwan ym mis Gorffennaf, cytunodd Annes, Linda, Gwen a Iona i wneud hynny. Y mae Annes am drefnu noson i ni drafod y rhaglen ar gyfer y tymor nesaf.

Mae'n rhaid bod ieir 'Rallt Uchaf yn rhai da am ddodwy, daeth Carys ag wyau i'w gwerthu yn y cyfarfod a chasglwyd £15 a'r arian yn mynd at apêl Nepal.

Ein gwestai oedd Mrs Theta Owen, Mynydd Llandygài ac roedd yn arddangos blodau. Roedd ganddi drefniant diddorol mewn ffrâm o gardfwrdd, roedd yn edrych fel cerdyn ac yn hynod o ddeniadol. Roedd y cyflwyniad yn hwyliog a chartrefol. Cawsom drafodaeth ar sut i gadw'r blodau i edrych yn dda yn y tŷ. Carys a ddiolchodd i Theta ar ein rhan. Bet a Carys oedd yn gyfrifol am y baned a Sali a enillodd y raffl.

# Taith o amgylch y fro

### Taith 13 Lôn Goed a Cochwillan

Cychwyn o Blas Ffrancon gan droi i'r chwith i lawr at y groesffordd. Troi i'r dde ar hyd Ffordd Coetmor a'i dilyn at groesffordd Lôn Rachub. Croesi ar draws i'r Lôn Goed a cherdded am o leiaf hanner awr nes y dowch i olwg Cochwillan ar y chwith ar waelod yr allt. Yma, gadael y lôn tarmac, troi i'r chwith ac mae'r ffordd yn mynd â chi i gyfeiriad Cochwillan.

Dilynwch arwyddbost "Llwybr y Gogledd" at "Llys Hynafol Cochwillan" ac ewch drwy'r giât sydd ar y dde gydag arwydd "Bwthyn Fferm Cochwillan" arni. Aiff y llwybr a chwi rhwng y Llys a'r ffermdy. Ewch trwy giât fochyn - mae saeth Llwybr y Gogledd ar bostyn chwith y giât fawr. Ymhen tua 100 llath, ewch trwy giât fochyn arall sydd ar y chwith i giât fawr. 'Rydych yn dal ar Lwybr y Gogledd. Troi i'r chwith gan ganlyn y gwrych ar drac fferm. Ymhen ychydig, o dan wifrau trydan, gadael y trac, cadw gyda'r gwrych ac anelu at giât ger hen foncyff coeden. Mae saeth ar bostyn chwith y giât. Wedi mynd drwyddi cadwch i'r dde o amgylch y cae a mynd tua'r clawdd pileri a'u dilyn. Mae'r llwybr braidd yn aneglur ar y cae yma. Ymhen dim, fe ddowch i olwg Afon Ogwen ar y dde. Mae'r llwybr yn glir yma ac yn dilyn uwchlaw'r afon i gyfeiriad Pont y Pandy.

Cadw ar y llwybr heibio'r tŷ ger Pont y Pandy a chroesi'r A5 yn ofalus. Cerddwch i'r chwith i fyny'r ffordd i gyfeiriad Bethesda am oddeutu 100 llath. Croesi'r ffordd (gyferbyn a giât yn y wal ar y dde) i ymuno â llwybr bychan am ychydig. Ewch trwy'r giât fochyn a throi i'r chwith i gyfeiriad hen ficerdy Llanllechid. Trowch oddi ar y ffordd i'r chwith gan ddilyn dwy saeth felen ar y postyn. Aiff y llwybr â chwi i'r chwith o'r tŷ ac i fyny'r cae at giât fochyn arall. Trwy'r giât yma ac i'r chwith gan gerdded tua 100 llath a byddwch yn ôl ar y Lôn Goed. Troi i'r dde yma a dilyn y ffordd yn ôl i Blas Ffrancon.

**Math o daith:** eithaf gwastad
**Pellter:** ychydig dros 4 milltir
**Amser:** tuag awr a thri chwarter
**Offer:** esgidiau addas - ffordd a llwybrau da

**Nodyn Hanesyddol**
Mae hen Neuadd Cochwillan yn dŷ a adeiladwyd ddiwedd y 15fed ganrif ac yn un o'r enghreifftiau gorau o stad ganol oesol Gymreig. Adeiladwyd oddeutu 1465 gan William ap Gruffudd. Roedd William yn cefnogi Harri Tudur yn ei ymgais am yr orsedd Saesnig a bu'n ymladd ym mrwydr Bosworth ym 1485. Fel diolch iddo fe'i hapwyntiwyd yn Siryf Sir Gaernarfon am oes gan Harri Tudur.

**Neuadd Hynafol Cochwillan**



**Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer**

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
**07770 900531**
**01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com

## CHRIS GRIFFITHS

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

## SAMARIAID

Mae
**Llinell Gymraeg**

**0300 123 3011**

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634195**



Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.

**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Elwyn Jones & Co

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP**

**- Cyfreithwyr -**

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

***Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol***
***Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar***

***Swyddfeydd eraill:***

| Llangefni | Amlwch | Benllech |
|---|---|---|
| (01248) 723106 | (01407) 831777 | (01248) 852782 |

| Caernarfon | Pwllheli |
|---|---|
| (01248) 673616 | (01758) 703000) |

## Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (*gyda'r nos* 602767)
***Blodau ar gyfer pob achlysur***

**Priodasau, Angladdau ayyb**
**Ffres a Sidan**

*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*

## Modurdy Central

**Ceir ail-law ar werth**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**

**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎601031**

**BARBWR OGWEN**

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**

**A.G.L.**
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Sefydlwyd 1969

**m.hughes a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

## MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
**A. Ll. Williams**

**Stryd Fawr, Bethesda**
**♦ PROFION M.O.T. ♦**

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**
**♦TEIARS A BATRIS♦**
**GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068

## WU SHU KWAN

**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

**Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30**

**Un sesiwn am ddim os dewch â'r hysbyseb hwn hefo chi**

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦

**Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416 neu galwch heibio'r dosbarth**

## Cerbydau Penrhyn

**CABIAU A BYSIAU MINI**
**Ffôn: (01248) 600072**

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru**

## Casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol 2015

Y swm a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd £5009.01. O ystyried bod nifer o bobl newydd ymateb i argyfwng Nepal, mae hwn yn gyfanswm teilwng iawn.

Mae'n diolch yn fawr i'r holl gasglyddion ac i drigolion y Dyffryn am eu haelioni ac i'r rhai hynny wnaeth lenwi'r ffurflen fydd yn galluogi Cymorth Cristnogol i adennill y dreth incwm ar eu cyfraniad. Diolch hefyd i Adrian Williams am archwilio'r cyfrifon ac i Neville Hughes am drefnu'r Bore Coffi fel arfer.

Diolch i bawb am ymddiried yn Cymorth Cristnogol i leddfu anghenion y rhai sy'n llai ffodus na ni.

Mae'r swm uchod yn cynnwys £405, sef elw'r Bore Coffi; casgliad o £100 yn yr oedfa Cymorth Cristnogol yn Eglwys Glanogwen; rhoddion o £100 gan Ysgol Sul Eglwys Shiloh, Tregarth; £50 gan Eglwys Amana, Mynydd Llandygai a £25 gan Eglwys Llandygai.

Dyma fanylion y casgliadau o dŷ i dŷ at Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae'r swm rhwng cromfachau yn nodi faint gasglwyd yn 2014. Daeth £4329.01 (£4207.14) i law mewn 1148 (1217) o amlenni. Ar gyfartaledd roedd £3.77 (£3.46) ym mhob amlen. Mae'r casgliadau wedi eu crynhoi fesul ardal gan nodi enwau'r rhai fu'n casglu.

Bethesda £1,095.03 (£947.40) Trefnwyr: Rhiannon Efans a Walter Williams.
Casglyddion: Lester Bath, Elfed Bullock, Barbara Conlan, Alun a Janet Davies, Gwenno Evans, Angharad Hughes, Ian Hughes, Janet Hughes, Marilyn Jones, Barbara Owen, Dafydd E Pritchard, Beti Rhys, Heulwen Roberts, Rhian Roberts, Carol Thomas a Walter Williams.

Braichmelyn £230.62 (£174.88) Trefnydd: Ceinwen Hughes.
Casglyddion: Carys Dafydd, Ceinwen Hughes, Elna Jones a Peter Williams.

Carneddi £361.92 (£352.39) Trefnydd: Ieuan Wyn.
Casglyddion: Janet Buckle, Pat Corns, Valmai Davies, Anwen Hughes, Selwyn Owen, Elizabeth Roberts, Karen Williams a Ieuan Wyn.

Gerlan £211.18 (£210.86) Trefnydd: Neville Hughes.
Casglyddion: Davina Evans, Neville Hughes, Bethan Jones, Caren Roberts, Ann Williams a Sandra Williams.

Mynydd Llandygai £156.26 (£277.73) Trefnydd: Elin Sanderson.
Casglyddion: Gareth Griffith, Iona Rhys, Elin Sanderson a Jean Williams.

Rachub a Llanllechid £634.15 (£525.68) Trefnydd: Paul Rowlinson.
Casglyddion: Siân Esmor, Carys a Martin Hebenstreit, Wendy Jones, Iona Robertson, Paul a Ffion Rowlinson, Megan Tomos, Helen Williams a Marilyn a Stephen o Fangor.

Rhiwlas £295.90 (£374.43) Trefnydd: Iona Jones.
Casglyddion: Steffan Job, Iona Jones, Nia Jones a Dilys Parry.

Talybont a Llandygai £679.37 (£593.46) Trefnydd: Neville Hughes.
Casglyddion: Enid Lloyd Davies, Catrin Hobson, Jean Hughes, Barbara Jones a Nerys Jones.

Tregarth £664.58 (£750.31) Trefnydd: Eirwen Williams.
Casglyddion: Elizabeth Buckley, Bethan Crowe, Catrin Doyle a Brian, Margaret Hughes, Einir W Jones, Dafydd Roberts, Andrea a Gerallt Williams, Carys Williams a Rosemary Williams.

**Griff Morris, Trysorydd Cymorth Cristnogol Bethesda a'r Cylch**

# Pwy sy'n Cofio Ddoe?

Mae'n syndod beth all rhywun ei ganfod o fewn cloriau Llais Ogwan!

Yn rhifyn Mis Mai o'r Llais yn ei golofn 'Pwy sy'n cofio ddoe? mae John Elwyn Hughes yn cyfeirio at y flwyddyn 1907 ac yn arbennig y dyddiad 28/02/1907. Ar y dyddiad hwn y gwnaeth Y Parchedig Rhys J.Hughes gynnal Eisteddfod y Plant ym Methesda a hynny am y tro cyntaf.

Y gŵr a enillodd y goron yn yr Eisteddfod gynta honno oedd Mihangel ap Rhys o Fangor.
Yr hyn oedd o ddiddordeb i mi oedd mai brawd fy Nain, Elizabeth Rhys, oedd Mihangel. Roedd eu cartref yng Ngholeg Bala Bangor ac roedd eu tad yn ddarlithydd yno. Roedd eu mam yn hannu o'r Bala, Myfanwy ferch Iwan, ac yn un o ferched Michael D Jones, un o sylfaenwyr y Wladfa ym Mhatagonia. Brawd i Mihangel ac Elizabeth Rhys oedd Tomos ap Rhys. Dwi'n siŵr fod llawer o drigolion y Dyffryn yn ei gofio fel y ffisiotherapydd dall yn Ysbyty Môn ac Arfon am flynyddoedd lawer. Cafodd ei ddallu yn y Rhyfel Byd cyntaf ac roedd yn un o'r pedwar cyntaf drwy'r Deyrnas i gael ci tywys. Byddai'n cerdded yn ddyddiol i'w waith o Greenbank, ger y pier ym Mangor ac ar hyd ffordd y Coleg gyda'r ci tywys bob amser wrth ei ochr.

Ond i fynd yn ôl at Mihangel. Ni wyddwn nemor ddim am ei hanes. Wythnos yma mae perthynas i mi o'r Wladfa ym Mhatagonia, yma hefo ni, sef Luned Gonzales, ac rwyf wedi'i holi hi os gwyddai rywbeth am Mihangel ap Rhys. Roedd yn ewythr iddi hi a'i chwiorydd, Moelona, Tegai a'u brawd Lewis, ac yn ewythr i fy mam, Myfanwy Rhys. Mae gan Luned gof o glywed ei rhieni yn siarad am Mihangel. Ar un adeg aeth allan i Batagonia am gyfnod byr ond iddo ddioddef o salwch meddwl difrifol ac iddo ddychwelyd i Gymru.

Difyr fyddai medru dod o hyd i'r gwaith a gipiodd iddo'r Goron yn Eisteddfod y Plant ym Methesda yn 1907. Tybed os oes gan unrhyw un o ddarllenwyr y Llais unrhyw wybodaeth amdano?

**Cofion gyda diolch**
**Gwenda Davies**
**Bodiwan**
**21 Lon y Wennol**
**Llanfairpwll**

**Telynores Eryri**



Braf iawn oedd darllen erthygl ddiweddar yn y Llais am fy Modryb Edith, o Eryri Wen, Beddgelert, ond a gafodd ei magu yng Nghwm Cloch.
Roedd Aunty Edith yn gymeriad arbennig o ddiddorol, gyda'i doniau cerddorol ynghyd â llawer o ddoniau eraill hefyd. Yn Delynores Eryri ac wrth gwrs wedi diddanu llawer gyda'r delyn ond yr un orau i mi bob amser oedd ei Chân am y Tramp, ia wir, doniol iawn oedd ei chân.

Byddwn wrth fy modd galw am de yn Eryri Wen lle'r oedd ei garddio heb ei ail. Byddai'n dod â phlanhigion o bedwar ban byd i'w plannu yn yr ardd - a honno oedd yr ardd orau pob gwanwyn yn y cylch.
Un diwrnod pan fu i ni alw yn ddirybudd, cofiodd fod ganddi gacan Dolig oedd heb ei gorffen i ni gael gyda phaned, a ffwrdd â hi i nôl lli gan fod y gacen mor galed! A dyna hi gyda'i phen-glin ar y bwrdd yn llifio'r gacen i ni, a'r hogia yn edrych yn syn ac yn gwrthod y cynnig o'r gacen.

Yn dilyn storm fawr, fe aethom i weld sut yr oedd hi, gan fod Eryri Wen yn dŷ uchel ar ben craig, a methu â gweld Aunty Edith yn unlle, nes clywed ei llais o ben y to, "Duwch, llechen wedi symud," meddai hithau! Roedd hefyd yn un dda am wnïo, ac un noson fe alwodd yma yn y Mynydd, wedi gwnïo trowsus bach a chrys i Morgan oedd yn fabi newydd, ia un ddawnus dros ben.

Ond wrth gwrs byddai hefyd yn canu teyrnged i'r Bardd Buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a mor falch yr oeddem fel plant ei bod yn Aunty Edith i ni. Diolch Andre am brocio'r cof.

**Gwen Griffith, Llwybr Main, Mynydd Llandygai,**
**gynt o Dan y Coed, Llanrug.**

**Enillodd Buddug Roberts, Pen y Ffriddoedd, Tregarth, y wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd eleni am Ryddiaith Blwyddyn 10 ac 11. Dyma'r gwaith buddugol.**

## Y Brotest

Sŵn sialc , clocsiau budur, sŵn geiriau, – dw i ddim yn deall. Sŵn sialc yn cael ei lusgo i lawr y bwrdd du anferth. Dw i ddim yn deall. Sŵn clocsiau blêr yn crafu'r llawr ar waelod coesau bach eiddil, llwyd. Dw i ddim yn deall. Sŵn gair, geiriau, brawddegau a pharagraffau yn llifo fel neidr fudr, frown. Dw i ddim yn deall.

Mae arogl cryf pren cynnes, arogl tamp a chalchog yn gymysgedd dieithr. Inc chwerw a phapur llyfn . Teimlo'r brethyn trwm yn cosi fy nghroen fel miloedd o chwain yn dawnsio. Clocsiau ail law yn gwasgu'n dynn am fy nhraed, a mys bach yn gweiddi bron. Hen ddesg bren, frown yn llyfn ar ôl blynyddoedd o blant yn gorffwys a gweithio arni. Mae'r haul yn gwenu, ond dw i'n oer.

Golau haul yr hydref yn gwenu trwy ffenest rydlyd.Y gwres yn melynu'r waliau oer. Rhesi o wynebau trist yn syllu, syllu, syllu ar yr un yn y blaen. Y fo. Yr athro. Mae o'n dal, fel derwen, yn edrych ar bob un ohonom fesul un, yn beirniadu, yn chwyrnu, bron yn arogli bob un ohonon ni. Ei glogyn du awdurdodol yn sibrwd yn y gwynt wrth iddo gerdded hyd y rhesi o ddesgiau sydd wedi cael eu gosod fel byddin yn yr ystafell ddosbarth.

Sŵn sialc , clocsiau budur, sŵn geiriau, – dw i ddim yn deall. Sŵn sialc yn cael ei lusgo i lawr y bwrdd du anferth. Dw i ddim yn deall. Sŵn clocsiau blêr yn crafu'r llawr ar waelod coesau bach eiddil, llwyd. Dw i ddim yn deall. Sŵn gair, geiriau, brawddegau a pharagraffau yn llifo fel neidr fudr, frown. Dw i ddim yn deall.

* * * * * * * * *

Eisteddai Hanna Jên yn ei chadair freichiau arferol wrth y tân letric yn y lolfa. Clywai sŵn y genod ifanc yn sgwrsio a sain y tecell yn berwi wrth iddynt wneud paneidiau, yn gymysg â sŵn anhyfryd Gladys yn pesychu yn ei chadair olwyn. Teimlodd y flanced esmwyth borffor a gafodd gan ei chwaer y Nadolig diwethaf. Dyma yr unig beth oedd ganddi i gofio amdani erbyn hyn. Gafaelodd yn ei chwpan i gael ei phaned gan fwyta'r fisged fel llygoden fach.

Roedd golau'r haul yn gwenu trwy'r ffenestr ddwbl newydd sgleiniog. Adar yn hedfan, blodau yn dawnsio yn y gwynt ysgafn, a Hannah Jên yn eistedd mewn cartref hen bobl, yn ddall i'r cyfan, gydag arogl o fwyd a llysiau yn cael eu goginio yn loetran yn ddiog o amgylch y lle. Yn sydyn daeth merch ifanc i mewn yn cario hambwrdd yn llawn cwpanau . Pump te a naw coffi. Wyth efo siwgr. Chwech ddim. A phlatiad o fisgedi Rich Tea. Plaen. Rhoddodd y ferch yr hambwrdd ar fwrdd bach yng nghanol y stafell a dechrau rhannu diod i bawb oedd yno. Arhosodd y dosbarth yno'n ufudd i ddisgwyl eu diod. Daeth at Hannah a rhoi ei the melys iddi. A dwy fisged. Roedd hi'n hoffi Hanna Jên, felly roedd hi'n cael bisged arall. Gwenodd Hanna arni cyn ateb mewn llais distaw:"Diolch."

"No probs Hannah love,"- ateb y ferch wrth droi a mynd i dendio ar rywun arall. Eisteddodd Hanna yn ôl yn ei chadair yn syllu ar y pobl ddieithr oedd yn rhannu'r stafell efo hi bob diwrnod ers dwy flynedd. John, gŵr gweddw, ar goll ar ôl colli ei wraig yn sydyn. Bob, yn hen filwr, oedd wrth ei fodd yn dweud hanesion y Rhyfel wrth pwy bynnag fyddai'n gwrando arno fo. Mildred, oedd yn edrych fel un o sêr Hollywood ers talwm. Roedd pawb mor wahanol. Ond roedd hi'n unig. Roedd hi ar ei phen ei hun. Heb neb yn gwmni.

* * * * * * *

Cadw fy mhen yn isel. A pheidio dweud gair. Gobeithio neith o ddim sylwi arna i. Cadw fy mhen yn isel. A pheidio dweud gair. Gobeithio neith o ddim sylwi arna i.
"You. Little girl... come up here." dywedodd Mr Barlow yn ei lais hunan-bwysig. Codaf oddi ar fy nghadair a cherdded mor araf a phosib i'r blaen. Mae'r daith yno'n ddi-ddiwedd.

"Now read this out loud." Ychwanega gyda hanner gwên ar ei wyneb. Rwy'n crynu yn fy esgidiau wrth i filoedd o lygaid syllu arnai. Mae'r athro yn siarad gyda mi ond mae'n un gymysgfa dywyll i mi.

Sŵn gair, geiriau, brawddegau a pharagraffau yn llifo fel glaw . Dw i ddim yn deall. Anadlaf i mewn, ond dydi'r llythrennau sydd o mlaen i ddim yn gwneud synnwyr. Dydw i erioed wedi gweld "geiriau" fel hyn o'r blaen. Maen nhw mor estron.

Dw i ddim yn deall.

* * * * * * * *

Edrychodd Hanna drwy'r ffenest a gweld rhes o frain yn eistedd fel côr blêr ar y gwifrau trydan. Roedden nhw'n ffraeo ac yn cecru ac yn ail drefnu eu hunain bob munud. Doedd dim un ohonyn nhw'n hapus, ac roedd rhywbeth amlwg yn bod. Chwarddodd Hanna. Roedd hi'n hoffi clywed sŵn yr adar. Roedd o yn ei hatgoffa o fod yn ferch fach. Roedd yn cofio sŵn yr adar pan oedd hi'n ferch fach. Yr un sŵn oedd gan y brain pan gerddai adre o'r ysgol. Crawcian a ffraeo diddiwedd. Ond roedd hi'n hoffi'r swn yma achos roedd hi'n ei gofio. Hwn oedd swn y gorffennol. A doedd iaith y brain byth yn newid. Yr un oedd eu cân o hyd.

"Finished?"

Torrodd un o'r genod ar draws atgofion Hanna a'i llusgo yn ôl at heddiw. Roedd ei chwpan yn dal yn ei llaw, a'r bisgedi heb eu cyffwrdd. Doedd hi ddim eisiau nhw.

"Hanna. You alright love?"

Syllodd Hanna i fyw llygaid yr eneth ifanc oedd yn siarad efo hi. Sŵn gair, geiriau, brawddegau a pharagraffau yn llifo fel glaw . Doedd hi ddim yn deall. Anadlodd i mewn, ond doedd y geiriau a glywai ddim yn gwneud synnwyr. Doedd hi erioed wedi clywed "geiriau" fel hyn o'r blaen.
"Hanna?" rhoddodd y ferch ei llaw ifanc yn addfwyn ar law rhychiog Hanna. Roedd hi'n poeni am yr hen wraig.

* * * * * * * * *

"You ignorant little madam! " bloeddia'r athro a'i lais milain yn cracio'r sment ar y waliau oer. "How dare you ignore me!" ychwanega gan ruthro ataf.

Teimlaf fy nghoesau'n gwanio, a phopeth yn lleihau. Teimlaf res o lygaid busneslyd yn syllu ar y sioe sy'n datblygu o'u blaenau.
"Say something will you – read the sentence!"Mae o bron a ffrwydro. Mae'n rhaid I mi ddweud rhywbeth.

"Sy…s..s.ss…yr…. dw dw….dw …i.i…dd..dddim….yn..d.d.d.deall…"

* * * * * * * * * *

"Gymra i banad o de heddiw, yn lle coffi os ga i cariad."

Edrycha Hanna i fyw llygad y ferch sy'n syllu'n ôl i dywyllwch enaid yr hen wraig. Dydi hi ddim yn deall yr hyn mae hi'n ddweud.

"Say that again love, you've started moidering now Hanna – talking jibberish a bit."

Ond er iddi chwerthin i ysgafnu'r sefyllfa, teimlai'r ferch yn anniddig. Roedd rhywbeth yn bod.

"Te, nid coffi heddiw cariad," meddai Hanna unwaith eto, a bellach roedd mwy nag un o'i "chyfeillion" wedi dechrau syllu arni.

"Oh, sorry I don't understand you today Hanna love. Look, I'll finish up cleaning upstairs and then I'll come back to see if you fancy a walk in the garden. OK?"

Dyna'r unig gynnig oedd gan y ferch. Cynnig gwag. Teimlodd Hanna rywbeth yn corddi y tu mewn iddi. Rhyw hen deimlad. Rhyw hen "wybod." Doedd hyn ddim yn iawn. Doedd hi ddim yn deall. Ddim yn deall hyn. Gosododd y gwpan a'r soser yn ofalus ar y bwrdd bach wrth ei hymyl. Rhoddodd y flanced borffor yn barsel taclus ar ochr ei chadair freichiau.

Cododd yn araf ond yn urddasol ar ei thraed. Ac meddai,
"Dw i eisio paned o de yn lle coffi heddiw os gwelwch yn dda!"

Clywyd y distawrwydd yn atsain yn erbyn y waliau, a'r llygaid yn saethu eu hergydion at Hanna o bob cyfeiriad. Rhuthrodd un o'r merched ati i'w thawelu, ond methodd. Cydiodd Hanna'n ei chwpan lugoer a'i thaflu dros yr ystafell amhersonol ac anghartrefol. Llithrodd y diferion coffi'n frown budr araf i lawr y muriau magnolia. Roedd pawb yn fud. Eisteddodd Hanna'n ôl yn ei chadair.

Syllodd unwaith eto trwy'r ffenestr..
Gwelodd y brain.
Roeddent wedi bod yn gwylio'r olygfa ac wedi'i mwynhau.
Ochneidiodd Hanna.

Roedd ei phrotest ar ben.

## Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Yn ein cyfarfod mis Mai dathlwyd llwyddiant ein hymgeisydd Hywel Williams am gael ei ailethol fel ein Haelod Seneddol. Roedd yn galonnog iawn ei fod hefyd wedi mwy na dyblu ei fwyafrif. Diolchwyd i bawb a fu'n gweithio mor galed yn ystod yr ymgyrch. Bydd Ceinwen yn anfon yn bersonol atynt. Nid oedd ond yr hyn a haeddai Hywel gan ei fod wedi gweithio yn ddiflino yn ystod ei dymor fel ein haelod, a da gweld ei fod wedi mynd ati yn syth i barhau gyda hyn ar ein rhan. Bydd gwaith ymgyrchu eto'r flwyddyn nesaf pan fydd Siân Gwenllian yn ymgeisydd cynulliad ar ran Plaid Cymru.

Cafwyd gwybod bod Partneriaeth Ogwen wedi apwyntio clerc newydd i'r cynghorau cymuned sef Mrs Donna Watts. Llongyfarchiadau iddi a gobeithio y bydd yn hapus yn ei swydd newydd.

Llongyfarchwyd Gwynfor Rowlinson ar ddod ar y blaen mewn ffug etholiad yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar ran Plaid Cymru. Mae'n dda gweld yr ifanc yn cymryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth, hwy, wedi'r cwbl yw'r dyfodol.

Mae'r un gŵyn yn codi dro ar ôl tro yn lleol oherwydd anghysondeb bysus Arriva ac mae'r cwynion hyn yn cael eu hanfon iddynt yn gyson gan ein cynghorwyr sir.
Gwnaed trefniadau ar gyfer ein stondin yn y Sioe Amaethyddol ar 13 Mehefin gan obeithio y cawn dywydd braf.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 30 Mehefin yng Nghanolfan Cefnfaes. Croeso.

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

**© Dr J. Elwyn Hughes**



**Dyddiadur Digwyddiadau 1917-1921**

**1917**

• Sefydlu Cangen Penrhyn (a ddaeth yn Penrhyn St Ann yn ddiweddarach) o Sefydliad y Merched. Erbyn diwedd 1917 roedd 137 o aelodau (47 o aelodau yn 1977).

• 27/03/17: Lladdwyd John Savin Jones Savin, mab Cordelia Mary a'r Canon, R. T. Jones, Ficar Glanogwen, ym Macedonia yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

• 01/04/1917 (Sul): Canon Jones, Glanogwen, yn marw yn 56 ml. oed. Hwn oedd y Canon yn Un Nos Ola Leuad. Iddo ef y byddai mam Caradog Prichard yn golchi, manglio a smwddio.

• Medi 1917: Marw Beti Wyn, merch y Parchedig J. T. Job. Mae'r croes wen o farmor ar ei bedd ac arni'r arysgrif 'Beti Wyn – Gyda'r Wawr – Medi 1917.

Pedair llinell olaf 'Ffarwel i Eryri' gan J. T. Job yw:

*Ffarwel i Goetmor dirion/*
*Ac O! mae'r dagrau'n llyn*
*Wrth ganu'n iach i'r beddrod bach/*
*Lle'r huna Beti Wyn'.*

Mae'n debyg fod nifer o ddarllenwyr Llais Ogwan yn gwybod ar eu cof y pedair llinell sydd yng nghanol y gerdd hon, sef:

Ffarwel i Gwm Pen Llafar
A'i heddwch diystŵr
Lle nad oes llef, ond ambell fref
a Duw, a sŵn y dŵr'.

**1918 (tua)**

• Cwmni George McDonald yn chwalu'r hen dai yng Nghae Star ar gyfer codi ffatri fawr i droi tomen Pantdreiniog yn baent a phowdwr dannedd, yn llestri pridd a photeli dŵr poeth. Methodd y fenter.

**1918**

• 13/04/1918: Marw David Thomas Ffrangcon Davies.

**1919**

• 08/05/1919 (Iau): Dirprwyaeth o Bwyllgor Cofeb y Milwyr yn cyfarfod ag Ymddiriedolwyr Stad Cefnfaes.

• Sefydlu Cwmni Drama Peniel, Llanllechid.

• 07/1919: Y North Wales Development Company yn ailagor Chwarel Pantdreiniog gyda'r bwriad o gynhyrchu 'Metal Polishing Powder' dan yr enw 'Myrtox', wedi'i wneud efo llwch llechi.

• 16/07/1919 (Mercher) Gwledd o groeso i'r milwyr – a chyngerdd ar ôl.

• 17/10/1919 (Gwener): Co-operative yn dechrau ym Methesda.

• Marw R.O. (R. O. Williams) yn 74 oed, awdur Hanes Dechreuad a Chynydd y Methodistiaid Calfinaidd yn Mhlwyfydd Llanllechyd a Llandegai (tua 1882). Byw yn Nhan-Treflys; blaenor yng Nghapel y Gerlan.

1920

• Marw Benjamin Thomas, Tyn-Tŵr, awdur 'Moliannwn', yn America. Roedd yn 82 oed.

• Y Neuadd Gyhoeddus yn dod yn eiddo'r Cyngor Dinesig.

1920au

• Albert E. Roberts (Albert Manchester) yn prynu Ford Model T (CC 4006) a dechrau busnes cario pobl. Prynodd fws Overland newydd sbon wedyn a dechrau gwasanaeth (tua 1927) o'r Gerlan, drwy Garneddi, Rachub a Brynbella, i Fangor, a hefyd o Rachub, drwy Garneddi, i lawr Allt Pen-y-bryn i Fethesda. Ehangwyd y busnes a phrynwyd rhagor o fysys. Bu Albert farw yn 37 oed yn 1936. Parhaodd ei weddw i redeg y Blue Motors ond daethant i ben eu rhawd pan werthwyd y busnes i gwmni Crosville yn 1952.

**1921**

• Côr Ysgol y Cefnfaes, dan arweiniad Miss Morfudd Williams, yn dod yn gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon.

• 26/12/1921: Tîm pêl-droed Braichmelyn a Phont-Tŵr yn chwarae mewn cystadleuaeth ar Ŵyl San Steffan.

• Ffurfio Cangen Bethesda o'r Lleng Brydeinig.

• Cyhoeddi Llyfr Hanes Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai, William Parry (Llechidon). Hefyd Ychwanegiad at yr Uchod hyd 1920, Robert Parry (Trebor Llechid), 216tt., Dolgellau, 1921.

**I'w barhau**

**Collwyd yn y Rhyfel Mawr Ganrif i'r mis hwn**


**ER COF**
**Am**
**Thomas Morgan**
**Milwr Cyffredin 1677**
'Manchester Regiment' "D" Coy. 1st/10th Bn.
A fu farw
4 – 6 – 1915
Yn 20 oed
Mab Thomas a Margaret Morgan,
Glan yr Afon, Tregarth

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

**LLYFR NEWYDD**

# Cynaeafu

SARAH KELLY




Yn dilyn llwyddiant ei hunangofiant *Deilen ar yr Afon*, mae'r awdur yn awr wedi ychwanegu ato hefo'i hanes yn fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ac yna'n gweithio yn Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol am 36 mlynedd, o 1959 hyd 1995. Cynnwys y llyfr hefyd nifer o storïau ac ysgrifau o'i heiddo wedi ei hel at ei gilydd – 'Cynaeafu' fel petai. Mae'r cwbl yn amrywiaeth ddarllenadwy a difyr.

Ar gael yn awr drwy eich siop lyfrau Cymraeg. Pris: **£8.95**
(neu drwy'r post o Palas Print, 10 Stryd y Plas, Caernarfon LL55 1RR
ffôn: 01286 674631. Cost postio: £1.20)

**Theatr Bara Caws**
yn cyflwyno

**NO WÊ**

gan Barry 'Archie' Jones
yng
**NGHLWB RYGBI BETHESDA**

Nos Wener a Nos Sadwrn,
31 o Orffennaf a 1 o Awst
am 7.30.
Tocynnau £8.00 –
ar gael gan Linda Brown
(01248 601526)
neu Huw Waen (01248 602480)

Elw'r nosweithiau ym Methesda ar 31 o Orffennaf a 1 o Awst tuag at Caban Gerlan ac Apêl Eleanor Jones.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

constructionline · NICEIC · ECA · CHAS

OWEN'S TREGARTH
Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
01248 602260



www.owenswales.co.uk




Clwb Criced a Bowlio Bethesda
Lon Newydd, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT

Lleoliad Gwych ar Gyfer Pob Achlysur

Cyfleusterau Gwych ar gael i Fudiadau, Cymdeithasau a Thrigolion

Partion, Bedydd, Cyfarfodydd, Gigs, Digwyddiadau, Cynhadleddau, Priodasau a llawer mwy...

Dyddiau ac amseroedd hyblyg ar gael ar gyfer llogi'r Clwb a Prisiau rhesymol

Oriau Agor:
Sul: Ar Gais
Llun: Ar Gais
Mawrth: Ar Gais
Mercher: Ar Gais
Iau: 8–12
Gwener: 7–12
Sadwrn: 7–12

Cyfleusterau: 3 ystafell fawr / 2 far / Llwyfan / Cegin, gyda chyfarpar / Digon o le parcio / Snwcer a Pŵl

Manylion Cyswllt: Ffôn: (01248) 600833, E-bost: cricedbethesdacricket@outlook.com,

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni

DEWCH I WELD EICH CYFREITHIWR LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

☎
BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF AM DDIM

EWYLLYSIAU A PHROFIANT

SYMUD TŶ

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturrs@googlemail.com

## Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod misol y cyngor ar 30 Ebrill pan groesawyd yr Heddwas Gareth Davies i annerch y cyngor ac ateb cwestiynau. Nodwyd bod problemau cyffuriau ym mhobman ond nad oedd Bethesda yn waeth na llefydd eraill. Trafodwyd problemau fandaliaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol (sydd wedi gostwng tipyn eleni) a pharcio ar linellau dwbl.

Trafodwyd Partneriaeth Ogwen a'r sefyllfa ariannol, Llys Dafydd a'r camau diweddaraf i gael maes parcio yn y Gerlan. Mabwysiadwyd rheolau ariannol diwygiedig, yn sgil argymhellion y Pwyllgor Cyllid.

Nodwyd na fyddai modd i Gyngor Gwynedd barhau i gynnal ei holl asedau yn yr ardal oherwydd toriadau i'w gyllid a phenderfynwyd y dylai Cyngor Bethesda ystyried yn strategol y posibilrwydd o dderbyn cyfrifoldeb am rai ohonyn nhw. I'r perwyl hwnnw, penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig o Bwyllgor Eiddo Cyngor Bethesda, gan wahodd pob cynghorydd iddo. Cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw ar 21 Mai gan benderfynu y dylid agor trafodaethau â Chyngor Gwynedd i drafod trosglwyddo eiddo'r cyngor sir yn yr ardal, gan gynnwys adeiladau, meysydd parcio, caeau chwarae a thoiledau, i'r cyngor cymuned.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cyngor Bethesda yn syth ar ôl y cyfarfod hwnnw, gan ethol aelodau i bwyllgorau'r cyngor a chynrychiolwyr y cyngor ar gyrff allanol. Etholwyd Dr Paul Rowlinson yn gadeirydd am y flwyddyn nesaf a diolchwyd i'r Cyng. Godfrey Northam am ei wasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Llongyfarchwyd y Cyng. Godfrey Northam a'r Cyng. Mary Jones am fod yn bresennol ymhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yng Nghanolfan Cefnfaes gyda'r nos. Nodwyd bod y Blaid Lafur wedi cynyddu ei phleidlais yn Arfon yn yr etholiad cyffredinol ond bod pleidlais y Torïaid wedi lleihau'n sylweddol.

Derbyniwyd adroddiad gan y trysorydd bod y sefyllfa ariannol yn iach (er bod y gangen wedi cyfrannu swm sylweddol i Blaid Lafur Arfon ar gyfer ymgyrch yr etholiad cyffredinol) a gwnaed trefniadau ar gyfer sioe amaethyddol y dyffryn.

Cafwyd adroddiadau am waith Llywodraeth Cymru (e.e. cynnydd mewn swyddi ar gyfer yr ifanc, tai, a staff y gwasanaeth iechyd, Cyngor Gwynedd (e.e. gwelliant mewn 63% o'r gwasanaethau ond dirywiad mewn 30% ohonynt) a'r cynghorau cymuned (e.e. Cyngor Bethesda'n ystyried creu maes parcio yn y Gerlan).

Ar ddiwedd mis Mai aeth rai o'r aelodau i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yn y Rhyl i wrando ar Ian Lucas (A.S. Wrecsam), Ken Slater (Dirprwy Weinidog yn Llywodraeth Cymru) a Donna Hutton (aelod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Cymru); yn ogystal â derbyn adroddiad ysgrifenedig gan Derek Vaughan (A.S. Ewrop). Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau a mynegi barn.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes, nos Fercher, 24 Mehefin, am 7.30 p.m.

# Pencampwr Cymru

## Llongyfarchiadau i un o weithwyr COPA ar gyrraedd y brig!

Merch o Landudno ydyw Beth Evans sydd newydd orffen ei phrentisiaeth trin gwallt yn siop COPA ym Methesda yn ddiweddar.

Yn goron ar hyn, enillodd Beth y wobr gyntaf yn ei chategori ym Mhencampwriaethau Trin Gwallt Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 26 Ebrill. Llongyfarchiadau mawr iddi!



**Dyma Beth Evans gyda'r tlws.**

# Nyth y Gân

**Newid Tymor**

Tangnefedd a rhyfeddod - ddaw eilwaith
O ddwylo y Duwdod
I ddwyn i bawb roddion Bod,
Haul, iach awel a chawod.

**Cymru wedi'r Goresgyniad 1282**

Mor oeraidd mwy yw'r erwau,
Ddoe dwyn tiriogaeth y ddau
Lyw gan dwyllo'r ail a'i ladd
 dur ing ar dŵr angau.

Dwyn eu tir, dwyn eu tyrau,
Dwyn llys, porthi'r wefus au,
A'r gweiniaid gyda'r gwannaf
Yn eu poen a'u byd heb haf.

Yr eiddilaf olaf hil
I dranc o frwydr eu hencil;
Ingol yw trawiad angau
Caeth, a thywyllwch yn cau.

Wylo hir y galaru
O boen am ddyddiau y bu
Farw'r hil ryw fore hen
A hongian wrth ryw gangen.

**Goronwy Wyn Owen**

# Gair neu ddau

**FFRINDIAU**

Daeth darllediad FIFA TV o Etholiad FIFA i ben gyda lluniau cymeradwyaeth frwd y gynulleidfa i Sepp Blatter, ac yntau newydd gael ei ailethol yn Llywydd y mudiad am y pedair blynedd nesaf. Roedd y modd y llwyddodd Blatter i ddal gafael ar awenau'r gymdeithas sy'n rheoli pêl-droed y byd, er gwaetha'r holl sylw a roddwyd yn ystod yr wythnos flaenorol i'r cyhuddiadau o dwyllo a llwgrwobrwyo yn erbyn rhai o'i gydweithwyr agosaf o fewn y mudiad, yn rhyfeddol er nad yn annisgwyl. Yn amlwg, oedd FIFA TV am roi'r argraff bod y gynulleidfa gyfan yn llawenhau yn llwyddiant diweddaraf Mr Blatter. Beth bynnag yw'r gwir am FIFA a'i uchel swyddogion, a beth bynnag a ddaw o'r bobl a gafodd eu harestio yn Zurich ychydig ddyddiau cyn Cyngres flynyddol FIFA wythnos olaf mis Mai, diolch wnaf fi nad wyf yn un o ffrindiau Sepp Blatter.

Ers blynyddoedd, bu'r gŵr hwn yn amddiffyn FIFA rhag pob cyhuddiad o ddrwg-weithredu. Bu'n troi clust fyddar i'r holl sôn a fu am dwyllo a llwgrwobrwyo a lladrata a chamddefnyddio arian o fewn rhengoedd FIFA. Bu'n amddiffyn y mudiad a'r bobl a fu'n cydweithio ag o, er gwaethaf pob tystiolaeth a gyflwynid gan ohebwyr a chyfreithwyr. Bu hyd yn oed yn ddigon wynebgaled i gollfarnu adroddiad a gomisiynwyd gan y mudiad ei hunan am fod yr adroddiad hwnnw i weithgareddau FIFA wedi meiddio bod yn feirniadol o'r mudiad.

Ond yr wythnos o'r blaen yn Zurich daeth tro ar fyd. Arestiwyd saith o uchel swyddogion FIFA, a buan iawn y clywyd Sepp Blatter yn diarddel y cyfeillion a'r cydweithwyr. O gofio mor barod fu'r dyn hwn dros y blynyddoedd i fynnu nad oes dim o'i le o fewn FIFA, oni fyddai disgwyl iddo fod wedi oedi ychydig, a mynegi ei syndod, a rhoi rhywfaint o gefnogaeth i bobl a allai wedi'r cwbl, os gwir honiadau Blatter dros y blynyddoedd, fod wedi eu cyhuddo ar gam? Ond na, mynd ati ar unwaith i sôn am y 'lleiafrif llygredig' o fewn FIFA a'r byd pêl droed byd eang a wnaeth Blatter, gan addo y byddai'n gwneud popeth o fewn ei allu i gael gwared â'r fath ddihirod os a phan fyddai'n cael ei ailethol. O fewn ychydig ddyddiau wedyn, roedd Blatter ei hun wedi cyhoeddi ei fwriad i ymddiswyddo.

Ymbellhau oddi wrth ei gyfeillion a wnaeth Blatter er mwyn ei amddiffyn ei hunan. Y peth olaf a ddymunai o fewn diwrnod neu ddau i Etholiad Llywyddiaeth FIFA oedd cael ei gysylltu â'r bobl a arestiwyd ac a oedd newydd gyfnewid crandrwydd y gwesty am gywilydd y gell. Ac o weld hynny, fedrwn i ddim peidio â meddwl mor wahanol iddo oedd yr Arglwydd Iesu Grist, a fynnodd ochri gyda phechaduriaid. Pan gefnodd ei ddisgyblion ei hun arno, aros yn ffyddlon iddyn nhw a wnaeth Iesu. Pan welai bobl a oedd yn cael eu dirmygu gan bawb am y pethau drwg yr oedden nhw wedi eu gwneud, mynnu eu croesawu a wnâi Iesu. Ac nid yn unig ochri gyda nhw ac estyn cyfeillgarwch iddyn nhw, ond bod yn fodlon hyd yn oed i fynd yn gyfrifol am eu beiau a dioddef eu cosb ar Galfaria. Ac oherwydd hynny, mae'n haeddu cael ei gydnabod fel y cyfaill gorau a gaiff pob un ohonom ninnau.

Amser a ddengys pa mor driw i Sepp Blatter fydd y ffrindiau a fu'n mwynhau ei gwmni a'i nawdd.

**Y PARCHEDIG JOHN PRITCHARD**

Copa
Gwallt a Harddwch
Hair & Beauty

**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

**Bethesda 600094**
Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

**Y Douglas Arms**
* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
**Oriau Agor**
**Llun – Gwener: 6.00 - 11.00**
**Sadwrn: 3.30 – 12.00**
**Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00**
**01248 600219**
**www.douglas-arms-bethesda**
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

**CAFFI COED Y BRENIN**
**1 Rhes Buddug, Bethesda**
**Ffôn: 01248 602550**
karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus**
***(mewn awyrgylch cyfeillgar)***
**Cinio arbennig bob dydd Iau**
**Bwyd i'w gario allan**
**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati**
***(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)***
**Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd**
**Prisiau rhesymol**

**BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)**
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**
**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**
**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**
**GWASANAETH DYDD A NOS**

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon
Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS
FINE ART TRADE GUILD

**Pob math o waith trydanol**
**Huw Jones**
**Ymgymerwr Trydanol**
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol
Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
**Ffôn: 01248 602480**

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
**Archfarchnad hwylus**
**Gwasanaeth personol**
**gyda'r pwyslais ar y cwsmer**
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**
**7 diwrnod yr wythnos**

STEPHEN
JONES
†
TREFNYDD
ANGLADDAU

**Hefyd ymgymryd â gwaith cerrig beddi: adnewyddu neu o'r newydd**
Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda
Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001
**Gwasanaeth personol ddydd a nos**

**JOHN ROBERTS**

**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**C.L. JONES**
**Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu**
Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677
Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**
Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 640794
**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni**

## Côr Meibion y Penrhyn

**Cyngerdd gyda Band byd enwog Black Dyke**
Ar 20 Mehefin yn Venue Cymru Llandudno bydd y côr yn dathlu deng mlwyddiant gwasanaeth Owain Arwel, fel ein harweinydd, trwy gynnal cyngerdd gyda'r band pres mwyaf llwyddiannus yn hanes holl fandiau pres y byd. Mae'r band hwn o Swydd Efrog wedi ennill cystadlaethau pwysicaf Ynysoedd Prydain ac Ewrop ar fwy na 30 o achlysuron gyda rhai o'r buddugoliaethau diweddaraf yn dod yn 2014 a 2015.

Mae'r tocynnau i'r cyngerdd yn prysur fynd, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cael eich sedd trwy gysylltu â Walter Williams ar 01248 601167 neu ar waltermenai@yahoo.co.uk neu'n wir drwy ffonio swyddfa docynnau Venue Cymru ar 01492 872000.

**Noson yng nghwmni John Ogwen**
Noson i'w chofio oedd honno gafwyd yng nghlwb Criced Bethesda pan ddifyrrwyd aelodau'r côr a'u gwragedd ynghyd â nifer o gyfeillion gan yr actor a'r perfformiwr adnabyddus, John Ogwen. Roedd John yn llawn hwyliau wrth adrodd a chanu penillion, dweud ambell i jôc ddiniwed ond hynod ddoniol ac wrth dynnu coes ambell i aelod o'r côr. A fu perfformiwr a mwy o raen ar ei berfformiadau yng Nghymru erioed?

**Cyngherddau Henllys a Sant Ioan**
Mae gwaith bara menyn y côr yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd o bob cwr ac yn ennyn canmoliaeth o bob tu. Dyna fu hanes y côr yn y ddwy gyrchfan uchod yn ystod Mis Mai a bydd mwy o berfformiadau tebyg o'n blaenau yn ystod Mehefin, Gorffennaf ac Awst. Gwyliwch y wasg leol am berfformiadau'r côr er mwyn i chi gael beirniadu drosoch eich hun.

# Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Brian Pritchard o Fethesda a fu'n athro cynradd yn Llanfairfechan am flynyddoedd cyn ymddeol.



**Be' ydy dy enw llawn?** – Brian Pritchard
**Oed?** – 65
**Gwaith** – Athro wedi ymddeol
**Lle wyt ti'n byw?** – Rhos y Nant, Bethesda
**Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** – O Borthmadog.
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** – Hapus, Tawel, Hoffi cwmni (yn enwedig yr ŵyr a'r wyresau.)
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** – Ers 1975
**Pa lais wyt ti?** – Ail denor.
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** – Gofynnwyd i mi gyfeilio yn absenoldeb y cyfeilydd ar y pryd – ac wedyn mi wnes i aros fel 'canwr'.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** – Y Tangnefeddwyr gan Eric Jones.
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** – Eric Clapton, Eva Cassidy.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** - Rydw i'n mwynhau ystod eang o gerddoriaeth ac eithrio jazz modern a'r 'crooners'.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r Côr?** – Cyrraedd tref Notzingen yn yr Almaen am y tro cyntaf.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** – Gwarchod yr wyrion a thrin y ddau hen gar MG sy' gen i a hefyd dwi'n mwynhau gwneud ychydig o DIY.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** – Parhau i ddatblygu rhaglen ar gyfer diddanu cynulleidfaoedd.

# Sam yn galw, o Foelyci



Helo, Sam sydd yma. Da chi'n cofio fi? Yr oen bach llywath oedd yn byw efo Jo yng Nglasinfryn (fe gawsoch chi ddarllan fy hanas yn rhifyn Mai y Llais). Y newyddion cyffrous ydi fy mod i'n byw yng nghanolfan amgylcheddol Fferm Moelyci rŵan. Beth am alw draw i ddeud helo ac i weld beth sy'n digwydd yma?

Ac mae hi'n gyffrous go iawn. Erbyn i chi ddarllan hwn, mae'n siŵr y bydd y siop newydd ar agor, a fydd hi ddim yn hir hyd nes y bydd y caffi newydd ar agor chwaith! Wpidŵ a hwre fawr! Ond, yn drist iawn, fyddai ddim yn cael dod i mewn i'r siop na'r caffi (elff and sêffti, bobol!). Peidiwch â phoeni, mae'n siŵr y bydda i o gwmpas yn rhywle ym Moleyci. Cofiwch alw heibio i ddeud helo. Dwi'n hoffi cael ymwelwyr.

Dwi wedi bod yn sgwrsio efo Dr Dave Ellis, rheolwr prosiect y fenter newydd ym Moelyci (sydd ar gyrion Tregarth gyda llaw, i'r rhai ohonoch chi sydd ddim yn adnabod y lle). Ac mae Dr Dave wedi bod yn dweud wrtha'i am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yma. Ers i Ymddiriedolaeth Tir Cwm Harry gymryd drosodd Moelyci, maen nhw wedi bod yn siarad efo'r gymuned ac o ganlyniad mae 'na bob math o bethau am fod yn digwydd yma. Y nod efo'r cyfan ydi meithrin bwyd da, bywyd gwyllt a menter leol. Ac wrth gwrs, dwi ar gael i roi cyngor doeth i bawb!

Mae'r siop ar agor rŵan ar ddydd Gwener rhwng 11.00yb a 6.00yh, ac ar ddydd Sadwrn rhwng 9.30yb a 5.00yh. Mae'n siŵr y bydd yr oriau yn ymestyn yn ôl y galw. Cynnyrch lleol sy'n cael blaenoriaeth yn y siop ac mae llawer o'r llysiau sydd ar werth wedi cael eu tyfu ym Moleyci. Mi rydan ni'n gwerthu wyau lleol hefyd a bara hynod o flasus sydd wedi cael ei bobi gan y becws arbenigol, Popty Hadau Pwmpen, ym Mhorthaethwy. Ond dwi ddim yn cael bwyta'r bara - a beth bynnag mae'r cwsmeriaid yn ei brynu mor sydyn, does 'na ddim briwsionyn ar ôl fel arfer ar ddiwedd y dydd. Go drapia!

Mi rydan ni angen eich help chi yma ym Moelyci. Os oes gennych chi chydig o oriau i'w sbario, beth am gynnig rhoi help llaw i ni? Da ni angen gwirfoddolwyr i weithio yn y siop a'r caffi, ac yn yr ardd. Beth amdani, bobol? Mi gewch chi lot o hwyl ac mi gewch chi'r cyfle i ddweud helo wrtha i, Sam, sy'n oen go arbennig!

Os da chi awydd mwy o wybodaeth, ewch i wefan Moelyci i gael yr hanas i gyd (www.moleyci.org) a dwi'n gobeithio y byddwn ni yn eich gweld chi yma yn fuan.


**Siop Ogwen**

Llyfrau,
Cryno Ddisgiau a DVDs,
Crefftau, Celf a mwy.

**Oriel yn agor yn fuan.**

**01248 208485**

**Swyddfa Partneriaeth Ogwen**

**Undeb Credyd Gogledd Cymru**
**Pwynt Casglu Wythnosol**
**Dydd Mawrth 12.30-2.30**

**Ystafell gyfarfod a gofod desg ar gael i'w llogi**

**Gwybodaeth: 01248 602131**

**T.G.S**

**CONTRACTWR TOEAU AC ADEILADU**
Felin Fawr, Bethesda, LL57 4YY
☎ 08000 126 213 tgsroofing@hotmail.com

# Croesair Mehefin 2015

**AR DRAWS**

1 Swnio fel ffedog wedi gweld dyddiau gwell (7)

5 '----- i Gymru'; odli wrth fwyta brecwast y werin erstalwm (5)

8 Mesur gwerth neu brofi gallu (5)

9 Yr hyn a wnewch i faich os ewch yn gyfrifol amdano (7)

10 Mae'r wen a'r ddu yn bigog (7)

11 Mae gwaith yn ormod i gi od; am mai hyn yw ei elfen (5)

12 Iaith flodeuog  a geiriau gwag yn aml (6)

14 Ar lafar, ysgolor ac un gwybodus (6)

17 Baban yn bwydo efallai (5)

19 Fel 2 I Lawr heb yr anifal ond yn arw iawn o hyd (7)

22 Yn ôl hen bennill, y rhain ddylai ddweud o beth y gwnaethpwyd hiraeth (7)

23 Lle i droi'r anifail yn gig (5)

24 Arloeswr y cryman a'r morthwyl (5)

25 Tanwydd wedi ei olchi ar gyfer ei werthu (3,4)

**I LAWR**

1 "Y ----- Houdini"; cân a hunangofiant Meic Stevens (5)

2 Ydi'r anifail mawr gwyn yn byw yma ger ceg yr afon yng Ngheredigion? (7)

3 Cyn arweinydd y blaid genedlaethol (5)

4 Brenin Cantre'r Gwaelod gynt (6)

5 Da am sylwi ar arian gyda llog (7)

6 Rhaid oedd gwneud hyn i'r ceirch yn 5 Ar Draws (5)

7 Person chwit-chwat (2,5)

12 Mae'n synhwyrol a theg i ddefnyddio rheol i weithio'r sym (7)

13 Mae bod dan deimlad yn dangos hwn (7)

15 Gall 13 I Lawr fod yn danbaid fel hyn (7)

16 Cors (6)

18 Hyd eithaf eich gall, "rhoi pob ----- ar waith" (5)


20 I amddifadu Samson o'i holl nerth (5)

21 Y trobwll yn y pentref hir ym Môn (5)

**ATEBION CROESAIR MAI 2015**

**AR DRAWS** 1 Cnocell, 4 Chwerw, 8 Mwsog, 9 Ysywaeth, 10 Ysgubor, 11 Odro, 12 Uwd, 14 Ynddo, 15 Alba, 18 Nod, 21 Ofer, 23 Ymladdodd, 25 Chwyldro, 26 Ysgaw, 27 Llorio, 28 Llofrudd

**I LAWR** 1 Cymryd, 2 Ocsigen, 3 Esgobion, 4 Chwys, 5 Enaid, 6 Wythnos, 7 Llygru, 13 Dadlwytho, 16 Buddugwr, 17 Porchell, 19 Dynol, 20 Addawodd, 22 Ewythr, 24 Adio



Atebion erbyn 1 Gorffennaf i 'Croesair Mehefin', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

Yr ateb anghywir a gafwyd gan ddau neu dri ohonoch oedd 'pydru' yn lle 'llygru', ac un yn cynnig 'buddogwr' yn lle 'buddugwr'.  Dyma'r rhai anfonodd atebion cywir : Gwenda Davies, Llanfairpwll; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Donna Coleby, Penwortham; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Ellen Whitehouse, Birmingham; Derek a Mai Jones, Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Sara a Gareth Oliver, Tregarth; Karen a Tom Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Myra E. Evans, Niwbwrch; Gareth William Jones, Bow Street; E. E. Roberts, Llanberis; Rita Bullock, Ann Carran, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gwenda Roberts, Rhosmeirch.

Ond y cyntaf allan o'r het y tro hwn yw cynnig Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor. Llongyfarchiadau i chi.

## CHWILAIR MEHEFIN  2015

Anifeiliaid

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W | H | U | Z | M | X | V | A |
| D | D | N | A | P | A | U | Q | U | C | T | A | R | W | S | O | F | R | P | Y |
| Q | Z | G | R | E | H | C | U | M | W | A | N | O | Y | R | I | A | S | Z | U |
| T | B | F | D | X | L | A | F | A | N | C | R | Y | U | P | W | R | H | C | Q |
| H | L | W | E | H | O | I | Y | E | E | G | S | W | E | O | M | H | E | P | T |
| T | A | C | B | B | C | U | F | U | J | G | P | L | T | M | I | V | V | D | C |
| B | I | B | F | R | F | O | G | F | Y | J | V | I | I | R | R | X | I | M | H |
| T | D | T | O | S | K | O | P | F | A | W | R | C | M | K | C | B | O | R | C |
| X | D | V | R | Y | H | S | A | T | M | N | R | E | F | Y | J | D | Z | H | B |
| C | W | O | S | C | R | R | A | I | X | N | T | I | L | H | X | J | J | M | B |
| **N** | W | T | E | X | N | M | D | X | K | F | U | P | C | C | Q | Y | O | I | L |
| **Y** | F | E | R | O | Z | Q | R | O | C | T | D | O | G | N | W | S | L | Z | E |
| **H** | B | E | G | H | A | J | K | J | C | L | G | N | E | L | R | V | O | G | L |
| **C** | P | W | P | G | T | S | O | W | J | R | J | D | Q | U | L | F | S | V | T |
| **O** | X | E | U | G | H | R | S | L | E | L | O | Z | E | A | F | X | I | W | T |
| **M** | Z | H | K | V | A | G | A | W | U | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O |
| G | D | H | B | S | I | U | I | M | Y | R | E | B | O | L | O | X | A | G | X |
| R | A | E | E | K | K | W | D | L | A | N | T | O | G | W | B | M | B | J | R |
| F | U | N | K | B | Z | E | L | B | B | C | U | Y | C | F | T | Z | M | A | P |

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg ANIFAIL. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb, yn un  llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Gorffennaf 1af.  Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf  fydd yn cael y wobr.

Wel yn wir, neb wedi cael hyd i'r atebion i gyd, ond mae rhan o'r bai arna i, gan fy mod wedi camsillafu SBRINGCLINIO gyda SBRIGGCLINIO. Felly'r rhai a gafodd unarddeg ateb cywir oedd yn mynd i'r het y tro yma. Roedd Elwyn Jones, Rhiwlas; wedi cael yr atebion cywir i chwilair Ebrill hefyd ond ni chyrhaeddodd ei atebion mewn pryd ac roeddwn wedi anfon y canlyniadau i'r wasg.

**Dyma atebion Mai:** Aberthu: Bro Chwareli: Cyfrinachau: Dawns y Glocsen: Ffosydd: Sbring Clinio: Storiau ar y Stryd: Tyddynwr: Tŷ Haf: Y Dderwen a'i Phlant: Y Gadair Siglo: Y Tad a'r Mab. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr unarddeg ateb cywir:- Mair Jones, Ffordd Bangor, Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydlas, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Margaret Williams, Rhos y Coed, Bethesda; Doris Shaw, Llwyn Hudol, Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda. Enillydd Mai oedd. Marilyn Jones, 1 Glanffrydlas, Bethesda.

## Marchnad Ogwen

Ar ôl treulio Marchnad Mehefin ar gae Sioe Dyffryn Ogwen, yn ôl yn ein cartref arferol y byddwn ni ar 11 Gorffennaf - sef Neuadd Ogwen wrth gwrs.

Y Stondin Elusen y mis yma yw Cyfeillion Ysbyty Gwynedd - criw hynod o weithgar sy'n gwneud gwaith ardderchog yn prynu offer i'r Ysbyty. Y Stondin nesaf sy'n rhydd yw Ionawr nesaf ar hyn o bryd.

Gemwaith gan Emily Roberts yw'r Stondin 'Un Tro'. Mae'r Stondin yma yn prysur lenwi - ychydig o leoedd sydd ar ôl o rwan tan y Nadolig.

Mae ychydig o le gennym i Stondinau bwyd ar y funud. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd os oes gennych ddiddordeb. Bydd rhaid gwerthu cynnyrch gwahanol i'n Stondinau arferol wrth gwrs. Mae holl Stondinau Marchnad Ogwen i'w gweld ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk gyda manylion ar sut i gysylltu a gwneud cais i'r Pwyllgor am Stondin. (Mae gofyn i werthwyr bwyd fod â Sgôr Hylendid Bwyd o 4 neu 5 cyn y caniateir ymuno â'r Farchnad. Mae hyn yn gyfraith gwlad.)

Mae croeso yn eich disgwyl, dewch yn llu!


Noson i ddathlu cyhoeddi cyfrol

y Prifardd Cen Williams

**Eiliadau Tragwyddol**

Nos Fawrth, 30 Mehefin
am 7.30 yh

Gwesty'r Victoria, Porthaethwy


**Y Prifardd Llion Jones**
fydd yn llywio'r noson

Darlleniadau gan
**Cen Williams** a **Nia Wyn**

Cerddoriaeth byw gan
**Wil Tân** a **Tudur Morgan**

Bydd yn noson i'w chofio!

***Croeso cynnes i bawb***




bwthyn
GWASG Y BWTHYN
Lôn Ddewi • Caernarfon LL55 1ER
01286 672018
gwasgybwthyn@btconnect.com


## Partneriaeth Ogwen – Cynllun Ynni Dŵr

Mae Partneriaeth Ogwen wedi cyrraedd carreg filltir bwysig yn ei phrosiect i sefydlu cynllun ynni dŵr cymunedol trwy gyflwyno cais cynllunio i Gyngor Gwynedd a chais echdynnu dŵr o'r afon i Gyfoeth Naturiol Cymru. Er mwyn cyrraedd y sefyllfa hon bu'n rhaid i ni fabwysiadu cynllun llai na'r bwriad gwreiddiol, sef cynllun tua 100 kW yn unig. Os byddwn yn derbyn y ddau ganiatâd hyn, byddwn yn cyflwyno cais cyn-gymhwyso i Ofgem i gofrestru ar gyfer y tariffau 'Feed-in-Tariff' (FiT) yn yr hydref.

Byddwn yn gosod cored fechan ar wely'r afon uwchlaw'r rhaeadrau o dan Bont Ogwen a bydd peipen ddŵr yn rhedeg dan lwybr beicio Lôn Las Ogwen i lawr i adeilad y tyrbin uwchlaw Pont y Tŵr. Ni fydd y cynllun yn cael effaith andwyol ar drigolion y Dyffryn nac ychwaith yr amgylchedd a'r rhywiogaethau amrywiol sy'n byw gerllaw'r safle. I'r perwyl hwn, rydym wedi cynnal nifer o astudiaethau ar yr effaith amgylcheddol i sicrhau na fydd niwed i bysgod, ystlumod, dyfrgwn, coed ac ati.

Amcanion y fenter yw cynhyrchu ynni adnewyddol, lleihau ein hôl-droed carbon ac felly'r newid yn yr hinsawdd a hefyd dod â budd uniongyrchol i drigolion Dyffryn Ogwen. Gyda mentrau preifat yn aml nid oes llawer o fudd yn dod i'r ardal ond mae Partneriaeth Ogwen, sy'n fenter gymdeithasol dan berchnogaeth tri chyngor cymuned y Dyffryn, yn bwriadu i'r gymuned fanteisio ar unrhyw elw a ddaw o'r fenter. Rydym yn credu y dylai adnoddau naturiol yr ardal, megis dŵr yr afon, gael eu defnyddio er budd pobl yr ardal.

Byddwn yn creu cwmni budd cymunedol newydd, Ynni Ogwen Cyf, i reoli'r prosiect. Bydd cost y cynllun tua £600,000 a byddwn yn gwahodd trigolion y Dyffryn, yn ogystal â'r cynghorau, i fuddsoddi yn y cynllun ac ennill cyfradd o log ar eu buddsoddiad. Byddwn yn rhoi unrhyw elw sy'n deillio o'r cynllun, ar ôl talu llog ac ad-dalu'r benthyciadau, i elusen gofrestredig newydd y byddwn yn ei sefydlu. Bydd yr elusen hon yn ariannu prosiectau lleol er budd y gymuned, er enghraifft prosiectau sy'n insiwleiddio tai ac atal tlodi tanwydd, cynlluniau ynni adnewyddadwy eraill a chynlluniau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynaliadwyedd a sut i arbed ynni.
Mae Partneriaeth Ogwen eisoes wedi cydweithio â Grŵp Cynefin i gynnal sesiynau yn swyddfa Partneriaeth Ogwen i helpu pobl i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Mae'r prosiect Wardeiniaid Ynni yn cynghori a helpu pobl i wneud ceisiadau am lwfans arbennig at gostau tanwydd ac mae gwaith i'r un perwyl ar fin dechrau gyda Chynllun Nyth. Dewch i'r swyddfa am ragor o wybodaeth am y cynlluniau hyn.
Rydym yn ddiolchgar i'r gymuned am eu cefnogaeth i'r cynllun. Y llynedd cawsom dros 150 o lythyrau yn ein cefnogi a byddwn yn cynnal digwyddiadau 'galw i mewn' dros y misoedd nesaf i rannu gwybodaeth bellach, a fydd hefyd ar gael ar ein gwefan, www.ogwen.org, yn fuan. Os hoffech fwy o wybodaeth, mae croeso i chi alw mewn i'r swyddfa neu ebostio partneriaeth@ogwen.org.

**Paul Rowlinson, Cadeirydd Partneriaeth Ogwen**





**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**alunffred.jones@cymru.gov.uk**

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllechid**
yn cyflwyno
**Disgo Haf**
9 Gorffennaf 2015, 6.00 - 8.00pm
**Clwb Criced, Bethesda**
Mynediad : £1.00
Gwisg Ffansi (opsiynol) a Raffl
**Croeso Mawr i Bawb!**

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**
11-12, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11-12, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's
**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

**Canolfan Cefnfaes BETHESDA**
**GYRFA CHWIST**
23 a 30 Mehefin
14 a 28 Gorffennaf
am 7.00 o'r gloch
Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

Eglwys Annibynnol Bethlehem
Talybont
**Te Mefus**
**yn Festri Bethlehem**
7.00 o'r gloch nos Fercher, 01 Gorffennaf
Mynediad £2.00 Elw at y Capel

**EGLWYS UNEDIG BETHESDA**
**LLENWI'R CWPAN**
**Dewch am sgwrs a phaned**
**Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd**

Eglwys Maes y Groes
Talybont
**Te Mefus**
**yn yr Ysgoldy**
Sadwrn, 27 Mehefin
am 2.00 o'r gloch.

**Neuadd Ogwen**
**Bore Coffi**
**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
**Sadwrn, 27 Mehefin**
**10.00 - 12.00**
**Mynediad £1.00**

**Marchnad Ogwen**
Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
**Gorffennaf 11eg**
Neuadd Ogwen
**Awst 8fed**
Neuadd Ogwen
**Medi 12fed**
Neuadd Ogwen
**9.30am - 1.30pm**
**Bwydydd, Crefftau, Caffi**
www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

**GARDDWEST 3 EGLWYS**
**4 Gorffennaf**
**1.00 i 4.00 y prynhawn**
**Ficerdy Pentir**
Raffl, Amryw Stondinau, Barbeciw, Cacennau, Gemau Plant, Lluniaeth
Mynediad i Oedolion £1.00
Plant 50c.
Yr elw at Eglwysi y Santes Fair, Sant Tegai a Maes y Groes.

**CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID**
yn cyflwyno
**NOSON WILLIAM MORGAN**
yng nghwmni
**HOGIA'R BONC a CELT**
gyda Neville Hughes yn arwain.
yn y Clwb Criced, Bethesda,
**7.30 Nos Wener, 26 Mehefin**
Tocyn £5.00 (yn cynnwys byrgyr Blaen y Nant)
Cysylltwch â Lynda 01248 601880 neu Marian 01248 605034

**CLWB CRICED A BOWLIO BETHESDA**
7 o'r gloch Nos Wener 3 Gorffennaf
**BARBECIW**
**A**
**NOSON Y TALENTAU LLEOL**
Plant Ysgolion Penybryn, Llanllechid a Dyffryn Ogwen gyda Hogia'r Bonc
**Tocynnau - £5**
**Yn cynnwys barbeciw**
Am fwy o fanylion a thocynnau, cysylltwch â Derfel Roberts, Ffôn 600965
**Ebost: hylaw@btinternet.com**

**DYDDIADUR BOREAU COFFI 2015**

**27 Mehefin** Neuadd Ogwen, Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
**25 Gorffennaf** Cefnfaes, Cronfa Goffa Tracy Smith.
**05 Medi** Cefnfaes, Pwyllgor Talgai
**12 Medi** Cefnfaes, Eglwys St. Mair a St. Anne, Mynydd Llandygai
**19 Medi** Cefnfaes, Eglwys Glanogwen
**26 Medi** – Neuadd Ogwen, Plaid Cymru.
**31 Hydref** Neuadd Ogwen, Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
**28 Tachwedd** Neuadd Ogwen, Ffair Nadolig y Blaid Lafur.

***Pwysig***
*Os ydych chi'n trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.*

*Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.*

*Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.*

*Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

Noson i ddathlu cyhoeddi
**Ar fy ngwaethaf**
Hunangofiant y newyddiadurwr a'r darlledwr
John Stevenson


Nos Wener, 26 Mehefin
am 7.30 yh

Canolfan Hamdden Biwmares

**Dewi Llwyd**
fydd yn llywio'r noson

*Dewch draw i glywed stori ryfeddol John, ac i fwynhau paned a sgwrs a cherddoriaeth byw*

***Croeso cynnes i bawb***




bwthyn
GWASG Y BWTHYN
Lôn Ddewi • Caernarfon LL55 1ER
01286 672018
gwasgybwthyn@btconnect.com

# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Seremoni Agoriadol Cwpan Rygbi'r Byd**
Gwnaeth côr yr ysgol gais yn ddiweddar i gael perfformio yn un o seremonïau agoriadol Cwpan Rygbi'r Byd ym mis Medi. Roedd rhaid anfon fideo o'r côr yn perfformio fel rhan o'r clyweliadau a daeth newyddion da bod y côr wedi creu argraff arbennig ar y beirniaid ac wedi llwyddo yn eu cais. Bu rhaid i Mr Evans ymweld â Twickenham er mwyn cyfarfod â threfnwyr y gystadleuaeth. Yn ôl y trefnwyr roedd y broses o ddewis yn un gystadleuol iawn gyda 118 o gorau arbennig o Gymru a Lloegr wedi ymgeisio felly mae hi'n fraint aruthrol i gôr Ysgol Dyffryn Ogwen fod yn un o'r 20 côr sydd yn cymryd rhan - un o ddau yn unig o gorau o Gymru.

Mae'r trefnwyr wedi gofyn yn arbennig i'r côr groesawu tîm rygbi Canada i'r gystadleuaeth mewn seremoni ffurfiol yn Abertawe ym mis Medi. Yma bydd y côr yn perfformio'r gân adnabyddus 'World in Union' - ond gwneud hynny yn y Gymraeg yn unol â thraddodiad y côr! Dyma'r unig seremoni lle bydd y Gymraeg yn cael ei chlywed. Yn naturiol, roedd y disgyblion wrth eu boddau gyda'r newyddion ac yn llawn cyffro. Maent yn edrych ymlaen am brofiad bythgofiadwy ar ôl gwyliau'r Haf. Ewch i wefan Cwpan Rygbi'r Byd 2015 i gael yr holl fanylion.

### Adran Addysg Gorfforol

**Rygbi**



Dyma David Florence a Mathew Buchanan o dîm dan 15 y bechgyn, a Cadi Williams a Mari Price Jones o dîm dan 15 genethod yr ysgol gyda Mr Rhys Williams, Modurdy Ffrydlas sydd wedi noddi'r crysau newydd. Diolch yn fawr iawn!

**Carfan Criced Rhanbarthol Eryri**
Llongyfarchiadau i Mathew Buchanan blwyddyn 9 a Sean Buchanan blwyddyn 7 ar gael eu dewis i Garfan Criced Rhanbarthol Eryri.

**Tîm pêl droed genethod dan 14**
Cafodd tîm pêl droed genethod dan14 ganlyniad ffantastig ar nos Fawrth, 19 Mai wrth guro Friars 2-1. Nel Rhys ac Efa Glain oedd y sgorwyr.

**Tîm rygbi genethod bl 7 ac 8**
Llongyfarchiadau i dîm rygbi genethod bl 7 ac 8 yn ennill cystadleuaeth y plât ar ddydd Gwener, 15 Mai yn nhwrnamaint Gwynedd a Môn. Cafwyd buddugoliaethau yn erbyn Friars a Brynrefail a gêm gyfartal yn erbyn y Gader yn y rownd gyntaf cyn mynd ymlaen i'r gêm derfynol.

**Pencampwriaeth nofio**
Llongyfarchiadau i Esme Crowe am ennill dwy fedal efydd ym mhencampwriaethau nofio Cymru yn ddiweddar. Ad-daliad am yr holl foreau cynnar!

**Athletau**
Mae'r tymor athletau wedi cychwyn unwaith eto ac mae nifer o ganlyniadau calonogol iawn wedi ein cyrraedd. Yn dilyn buddugoliaethau yn rowndiau athletau Arfon aeth Beca Nia (bl8), Sophie Ellis, Esme Crowe, Mathew Buchanan, Ben Williams (bl9) ac Owen Wilberforce (bl10) i bencampwriaethau Eryri. Bydd Mathew yn mynd ymlaen i rowndiau terfynol ysgolion Cymru i gystadlu yn y taflu pwysau yn fuan. Pob lwc iddo!

**Tîm Criced Merched**
Mae tîm criced newydd i ferched ar gyfer oedrannau blwyddyn 7 i fyny wedi cychwyn ym Methesda. Ymarferion ar fore Sul o 11.00am yn y clwb criced.

**Gwobr Dug Caeredin**



Dros y flwyddyn ddiwethaf mae criw o fechgyn blwyddyn 11 wedi bod yn brysur iawn yn ennill Gwobr Efydd Dug Caeredin.

I gyrraedd y nod bu Gareth Williams, Arwel Davies. Gareth Trow, Matthew Griffith, Huw Owen a Tanvir Iftaker yn trefnu mabolgampau, yn helpu yn y gymuned gyda nifer o brosiectau i wella'r amgylchedd, yn dysgu sgiliau newydd fel adeiladwaith, yn cymryd rhan mewn cyrsiau awyr agored ac yn cerdded 16 milltir gan wersylla am noson wrth gario popeth roeddent ei angen ar eu cefnau.

Da iawn chi hogiau, ymdrech ragorol!

**Gweithdy Aneirin Karadog, Bardd Plant Cymru 2015**
Bu criw o Flwyddyn 8 yn ddigon ffodus i gael gweithdy gydag Aneirin Karadog, Bardd Plant Cymru 2015. O'r eiliad y camodd Aneirin i mewn i'r ystafell ddosbarth gyda'i ffon fugail drom, roedd y disgyblion wedi'u syfrdanu. Gweithgaredd cyntaf y disgyblion oedd creu rhestr o eiriau sy'n odli gyda'u henwau, a chafwyd sawl ateb diddorol iawn. Yna aethant ati i gyflythrennu enwau ei gilydd ac roedd digon o hwyl ymysg y disgyblion wrth wneud hyn. Erbyn hyn, roedd y disgyblion yn barod i greu rap mewn grwpiau gan ddefnyddio'r hyn roeddent eisoes wedi'i ddysgu a chynnwys odl a chyflythrennu ynddynt. Daeth y gweithdy i ben gyda'r disgyblion yn perfformio eu rapiau ac roedd pob un o safon uchel iawn ac yn ddoniol tu hwnt. Bu i'r disgyblion fwynhau'n arw ac roedd y gweithdy'n fuddiol iawn i bob un ohonynt. Wrth gwrs, mae'n ddigon posib bod Bardd Plant Cymru y dyfodol ymysg y criw!

## Ysgol Llandygái

**Ymweliad**
Bu disgyblion Blwyddyn 3 ar fws i Amgueddfa Lloyd George Llanystumdwy yn ddiweddar er mwyn dysgu ymhellach am fywyd ysgol ers talwm a chymharu'r hyn a welsant gyda'u bywyd ysgol nhw heddiw.

**Wythnos Fathemateg**
Cawsom wythnos fathemateg yn yr ysgol cyn gwyliau hanner tymor y Sulgwyn. Roedd tasgau mathemategol amrywiol wedi'u paratoi ym mhob dosbarth gydag elfennau o wahanol feysydd y cwricwlwm. Hefyd, cafodd y ddau gyfnod allweddol sioe fathemategol a oedd yn annog datblygu sgiliau mathemategol megis arian, siapiau, data a llawer mwy. Trefnwyd noson hynod o ddiddorol i rieni'r disgyblion, ble roedd cyfle iddynt wrando ar gyflwyniad am fathemateg yn yr ysgol ac hefyd cawsant gyfle i ymchwilio i declynnau Techniquest. Diolch i Mrs Pritchard a Mrs Hughes am drefnu'r cyfan.

**Ymweliad yr Esgob**
Bu'r Gwir Barchedig Andrew John, Esgob Bangor yn addoli gyda disgyblion yr Adran Iau yn ddiweddar. Thema'r gwasanaeth oedd taith yr Ysbryd Glân a diolch i'r Parch John Mathews am drefnu'r gwasanaeth. Mae hi bob amser yn braf cael croesawu'r Esgob i'n plith.

Llais Ogwan 24

# Ysgol Abercaseg



**Baner Werdd 1af Eco-Sgolion**
Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion yr ysgol ar ennill gwobr y Faner Werdd 1af gyda'r rhaglen Eco-Sgolion. Mae Eco-Sgolion yn fenter rygnwladol sy'n annog disgyblion i ymdrin â materion amgylcheddol a chynaliadwy yn cynnwys Sbwriel, Lleihau gwastraff, Cludiant, Byw'n Iach, Ynni, Dŵr, Tir yr Ysgol a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Ni yw'r ysgol gyntaf ym Methesda i ennill y Faner Werdd ac mae'r wobr yn gydnabyddiaeth o gyrhaeddiad uchel yn y rhaglen ac yn werthfawrogiad o berfformiad yr ysgol i fabwysiadu'r rhaglen a'i hintegreiddio fel rhan arferol ac annatod o fywyd bob dydd.

**Yn y llun gwelir yr ysgol gyfan gyda'r Faner Werdd Eco-Sgolion.**

**Apêl Nepal**
Hoffwn ddiolch i Mr Arwyn Oliver am alw draw i drafod sut wlad oedd Nepal cyn y daeargryn mawr yn ddiweddar. Wrth ddilyn y newyddion rydym i gyd yn ymwybodol o'r difrod a'r effaith trawiadol mae'r daeargryn wedi ei gael ar fywyd y bobl yn Nepal, ond roedd yn braf cael darlun cliriach o fywyd y wlad cyn y trychineb.

Cawsom gyfle i edrych ar nifer o luniau a chlywed hanesion di-ri am yr amser difyr yr oedd Mr Oliver wedi ei dreulio yn y wlad. Ar ddiwedd y sgwrs daeth disgyblion yr ysgol ymlaen i orchuddio baner Nepal gydag arian gwyn er mwyn helpu pobl y wlad i ailadeiladu eu bywydau. Diolch i Mr Oliver am ei gyflwyniad difyr ac i ddisgyblion a rhieni'r ysgol am gyfrannu'n hael tuag at yr achos. Mawr obeithiwn y bydd bywyd pobl Nepal yn gwella'n fuan.




**Rhai o blant y dosbarth Meithrin yn cyfrannu tuag at gasgliad Nepal.**

**Cerdded i'r Ysgol**
Rhwng 18 a 22 Mai, roedd yn braf gweld nifer fawr o'r disgyblion a'u rhieni yn gwneud ymdrech arbennig i gerdded i'r ysgol i gefnogi wythnos 'Cerdded i'r ysgol'. Roedd yn gyfle gwych i bawb gymryd rhan mewn achlysur rhyngwladol ac ymuno ag ysgolion eraill drwy Gymru gyfan i leihau ôl troed carbon a defnyddio modd iachus o deithio i'r ysgol. Da iawn pawb a diolch am eich cefnogaeth.

# Ysgol Tregarth

**Carnifal**
Carnifal y Creaduriaid!! Gwyddom yn iawn am y dathliadau a'r hwyl sy'n digwydd mewn amryw o leoliadau o amgylch y Byd! Ond yn wir, yn nosbarth Llywelyn, roedd carnifal go iawn yn digwydd er mwyn cloi ein thema Gwingo ac Ymlusgo. Roedd y plant wedi creu mygydau o bob math, gan gynnwys adrodd ffeithiau di-ri a dysgwyd a chlywyd canu bendigedig yn atseinio ar yr iard! Cawsom brynhawn llawn hwyl a sbri ac atgofion bythgofiadwy!

**Bingo Cyfeillion**
Ar nos Iau, 21 Mai, cynhaliwyd Bingo arbennig o lwyddiannus gan Gyfeillion yr Ysgol. Braf iawn oedd gweld llawer o blant a phobl yn neuadd yr ysgol! Aeth ambell un adref gyda gwobrau anhygoel!! Diolch o galon i'r Cyfeillion am eu parodrwydd i helpu a diolch yn benodol i Mrs Jane Parry am drefnu digwyddiad llwyddiannus arall.

**Kerbcraft**



Cafodd disgyblion blwyddyn 1 ymweliad arbennig gan y gath enwocaf yng Ngwynedd, Carys Ofalus yn ddiweddar.
Bu Carys Ofalus, cymeriad hyrwyddo diogelwch y ffyrdd Cyngor Gwynedd, draw i'r ysgol er mwyn diolch i ddisgyblion blwyddyn 1 am eu gwaith caled yn ystod sesiynau Kerbcraft.
Mae'r plant wedi cael budd sylweddol o'r cynllun wrth iddynt dderbyn hyfforddiant ymarferol yn rheolaidd ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Diolch o galon i Shirley Wyn Williams am hyfforddi'r disgyblion dros yr wythnosau diwethaf.

**Casglu arian at Nepal**
Roedd disgyblion yr ysgol yn awyddus iawn i gasglu arian at drigolion Nepal yn dilyn y daeargyn a fu yno. Aeth y Cyngor Ysgol ati i drefnu diwrnod o weithgareddau. Yn ystod y bore, cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Arwyn Oliver am ei ymweliad â Nepal. Roedd yn werthfawr gweld lluniau o ble fydd yr arian a godwyd yn mynd. Hefyd, daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo lliwiau baner Nepal ac yn ystod y prynhawn cafwyd sioe dalentau - 'Talentau Tregarth'. Bobol bach, mae yna dalent yma yn Nhregarth! Diolch i bawb a gyfrannodd arian at yr achos pwysig yma ac i Mr Oliver am ei sgwrs ddiddorol iawn.

## Ysgol Bodfeurig

**Pêl Droed yr Urdd**
Dyma dîm pêl-droed Ysgol Bodfeurig a gymerodd ran yng Nghystadleuaeth 7 bob ochr yr Urdd ym Mhorthmadog yn ddiweddar. Enillwyd un gêm, roedd y ddwy gêm arall yn gyfartal a chollwyd un i bencampwyr y gystadleuaeth. Da iawn chi!



**Tîm pêl-droed yr ysgol**

**Ymweliad â Mynydd Gwefru**
Fel rhan o'u thema ar ynni, aeth dosbarth Ogwen ar ymweliad i Fynydd Gwefru yn Llanberis. Roedd pawb wedi rhyfeddu gweld beth oedd yn cuddio o dan y wyneb. Roedd yr ymweliad yn sicr wedi eu sbarduno pan ddaeth yn amser i wneud gwaith ar y thema yn ôl yn y dosbarth.

**Ymweliad â Pili Palas**



Y tymor yma mae dosbarth Idwal wedi bod yn edrych ar greaduriaid bach a'u cynefinoedd. Cafodd pawb amser arbennig pan aethant ar ymweliad i Pili Palas gan weld llu o anifeiliaid. Hoff ran y dydd oedd y cyfle i gyffwrdd â rhai o'r creaduriaid. Ar ôl dychwelyd i'r dosbarth aethant ati i ddeor lindys eu hunain cyn ei wylio'n troi'n chwiler ac yna'n bili pala!

**Dyma Connor yn cyfarfod y python! Dewr iawn Connor!**

## Ysgol Rhiwlas

**Ymweliadau**
Cafodd plant yr ysgol aml i ymwelydd dros y mis diwethaf. Daeth y Cynghorydd lleol Mr Hefin Williams i mewn i sgwrsio am ei swydd yn y Cyngor a sut y mae'n gweithio ar ran yr ardal i wella'r gymuned mae'r plant yn byw ynddo. Aeth o'r ysgol gydag amryw o syniadau gan y plant ar sut i wella'r gymuned a beth hoffen nhw ei weld yn digwydd yn y pentref. Mae'n siŵr bod ei ben yn troi gyda chymaint o syniadau da gan y plant a braf clywed y plant yn ymddiddori yn y gymuned.
Daeth Mr Arwyn Oliver nôl i'n gweld i sgwrsio am ei brofiadau yn Nepal. Cafodd y plant ddysgu am y wlad a sut mae'r dinistr diweddar wedi effeithio arni. Gwnaed casgliad gan y plant i'w anfon at y trychineb.
Diwrnod olaf y tymor, cafodd y plant syrpreis gwych pan ddaeth Josh Navidi, chwaraewr rheng ôl y Gleision a Chymru i mewn i'w gweld. Roedd yn y Gogledd yn ymweld â theulu ac wedi penderfynu galw yn yr ysgol i weld y plant. Roeddent i gyd wrth eu boddau'n cael sgwrs am ei yrfa a dysgu ychydig am rygbi.

**Beatbocsio**
Ella bod pobl y pentref yn meddwl bod y plant i gyd mewn poen ychydig wythnosau yn ôl wrth fynd heibio'r ysgol, ond roedd rheswm da am hyn, roeddynt i gyd yn dysgu beatbocsio!! I'r rhai ohonoch sydd ddim yn gwybod beth yw hyn, mae'n golygu gwneud synau gyda'ch llais. Death Ed Holden, y beatbocsiwr Cymraeg enwog i mewn am y dydd i roi gwersi i'r plant ar sut i wneud y synau. Cafodd plant yr adran iau hefyd gyfle i gyfansoddi rap yn ystod y dydd. Os hoffech ei chlywed, mi fydd y plant yn ei chanu brynhawn Sadwrn 20 Fehefin yn ystod "Snowdon Rocks" yn Llanberis.

**Tesco**
Aeth plant y cyfnod sylfaen ar daith i archfarchnad Tesco i ddysgu mwy am darddiad y bwyd y maent yn ei fwyta. Cawsant fore diddorol yn gweld y tu ôl i lenni'r siop a chael gweld sut mae'r bara'n cael ei wneud. Cawsant brofiad o weld pysgod yn cael eu paratoi ar gyfer y cwsmer a llawer i beth arall. Roedd gan bawb stori fawr i'w dweud erbyn cyrraedd adref y diwrnod hwnnw.

**Lle Chwarae**
Enillodd yr ysgol grant yn ddiweddar i gael addasu rhan o'r cae chwarae yn "adventure playground". Erbyn hyn mae'r gwaith wedi ei wneud a bydd y plant yn cael cyfle i fynd arno yn ystod amser chwarae'r ysgol. Gobeithio y cewch oriau o hwyl arno blant ond byddwch yn ofalus.

**Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol**
Mae'r Gymdeithas wedi trefnu ffair haf i godi arian at adnoddau i'r ysgol ar nos Wener 26 Mehefin. Bydd stondinau ac amryw o weithgareddau eraill ar gael i'ch diddanu.
Mae bore coffi wedi ei drefnu yn yr ysgol fore Gwener 19 Mehefin i godi arian at yr ymgyrch Awyr Las.
Dewch yn llu i gefnogi'r ddau achos teilwng yma.

## Ysgol Pen-y-bryn

**Noson Gwricwlaidd**



Ar 20 Mai, cafwyd noson gwricwlaidd hynod lwyddiannus gyda llond neuadd yn mwynhau cyflwyniadau gan y plant. Roedd y noson yng ngofal Plant Pesda (y grŵp effeithiolrwydd) ac roeddynt yn wych wrth iddynt gyflwyno pob dosbarth ac egluro cynnwys y cyflwyniadau. Cafwyd cyflwyniad am sgiliau rhifedd o ddydd i ddydd gan ddosbarth Tryfan, cyflwyniad am ddiogelwch y we gan ddosbarth Carnedd Dafydd, cyflwyniad am ffitrwydd a phwysigrwydd bwyta'n iach gan ddosbarth Carnedd, cafwyd esboniad am drefn gwaith cartref a'r disgwyliadau gan blant Glyder a chafwyd cyflwyniad gan Elidir am drefn a disgwyliadau gwaith iaith yr ysgol. Eleni rhoddwyd holiadur i'r rhieni er mwyn dweud wrthym pa wybodaeth yr hoffent ei chael ac rydym yn gobeithio'u bod wedi cael budd o'r cyflwyniadau. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni am fynychu ac am eu cefnogaeth.

**Campau'r Ddraig**
Mae'r Cyngor Chwaraeon wedi bod yn cynnal sesiynau Campau'r Ddraig ar gyfer blwyddyn 3 a 4. Mae'r sesiynau'n llwyddiannus dros ben gyda'r plant yn datblygu amrywiaeth o sgiliau. Daliwch ati!

**Criced**
Mae plant blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn lwcus iawn o gael gwersi criced gan Neil a hynny ar gyfer Gŵyl Griced ym mis Mehefin. Mae'r plant yn arddangos sgiliau da iawn a phawb yn mwynhau cael cymryd rhan. Rydym yn edrych ymlaen at weld pwy sy'n cael eu dewis i'r timau terfynol!

**Profion Cenedlaethol**
Fel gweddill Cymru, bu'r plant yn brysur yn sefyll y profion cenedlaethol darllen a rhifedd. Ymdrechodd y plant i gyd ac rydym yn falch o'u llwyddiant. Da iawn chi blant!

**Bro Lleu**
Mae gan yr ysgol gysylltiad cryf ag Ysgol Bro Lleu, Penygroes, er mwyn rhannu arferion da rhwng y staff a'r plant. Yn sgil hyn, daeth

Melinna Williams sef athrawes newydd gymhwyso, i arsylwi sesiynau darllen, iaith a mathemateg blynyddoedd 5 a 6. Gobeithiwn iddi gael budd o'r ymweliad ac edrychwn ymlaen at y cydweithio nesaf.

**Arolwg Chwaraeon**
Cyn y gwyliau hanner tymor, bu Mr Dyfed Davies yma yn yr Ysgol yn cynnal Arolwg Chwaraeon.
Golygodd hyn fod chwedeg o blant yn nodi pa chwaraeon maent yn cymryd rhan ynddynt yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol hefyd. Diolch yn fawr Mr Davies a llongyfarchiadau am fedru mynd drwy'r holl blant mewn cyfnod mor fyr!

**Eisteddfod Caerffili**
Llongyfarchiadau mawr i Anest Bryn o ddosbarth Carnedd am ddod yn gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd hefo'i gwaith celf argraffu i flynyddoedd tri a phedwar.
Cafodd ysbrydoliaeth wedi ymweliad â Catrin Williams yn Sir Fôn beth amser yn ôl. Bu'r chwiorydd Awel a Betsan Griffiths hefyd yn cystadlu, ond ni ddaeth llwyddiant i'w rhan eleni er bod eu gwaith hwythau o safon dda iawn. Daliwch ati genod a gwell lwc y tro nesaf!

**Rygbi yn Aberystwyth**
Yn ddiweddar bu hogiau rygbi'r Ysgol yn cymryd rhan mewn twrnamaint rygbi i ysgolion cynradd Cymru yn Aberystwyth. Wedi curo eu grŵp aethant drwy'r rowndiau nesaf gan ddod yn fuddugol yn y gêm derfynol yn erbyn Ysgol o Gaerffili.

Llongyfarchiadau mawr i'r hogiau sef Huw Davies, James Adl, Daniel a Noa Hughes, Tomos Hughes, Evan Ward, Leon Wild a Dyfan Eames. Diolch o galon hefyd i Mr Dylan Davies, Ysgol Dyffryn Ogwen, am fod yn hyfforddwr penigamp ac i'r holl rieni am eu cefnogaeth gyson.



**Y tîm buddugol**

## Ysgol Llanllechid

**Cydymdeimlo â Rhian Haf**
Anfonwn, fel ysgol, ein cydymdeimlad dwysaf at Ms Rhian Haf a'r teulu, yn dilyn colli tad a thaid hoffus. Nid yw Ms Haf ei hun wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar, felly brysiwch wella Ms Haf; mae pawb yn cofio atoch.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at deulu Mrs Parry Owen yn ogystal.

**Llongyfarchiadau**
Dymunwn longyfarch Mrs Llinos Wilson ar ei phenodiad yn Arweinydd y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llanllechid. Pob dymuniad da i chi Mrs Wilson a llongyfarchiadau gwresog!

**Côr Glanaethwy**
Llongyfarchiadau i Efa Lois, sy'n aelod o Gôr Glanaethwy, ar y profiad anhygoel o ymddangos ar lwyfan Britain's Got Talent! Perfformiad gwefreiddiol.

**Charlotte Speddy**
Dymunwn yn dda i Charlotte Speddy, a dreuliodd gyfnod ar brofiad gwaith yn Ysgol Llanllechid, fel rhan o'i chwrs gyda Choleg Menai. Pob lwc i ti i'r dyfodol, Charlotte.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerffili**
Gwych o beth, eto eleni, oedd gweld un o ddisgyblion Ysgol Llanllechid ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd! Daeth Efa Glain yn ail yn y gystadleuaeth Unawd i flynyddoedd 3 a 4, ac roedd hi'n canu'n fel eos! Da iawn ti, Efa Glain! Mae dyfodol disglair o dy flaen! Hefyd, gwelwyd gwaith celf 3D Ithel Temple Morris yn aml ar raglen yr Eisteddfod ar S4C, gan ei fod yntau wedi cael y wobr gyntaf! Rhaid nodi hefyd i ni sylwi ar un o'n cyn-ddisgyblion, sef Gwydion Rhys, Blwyddyn 7 Ysgol Dyffryn Ogwen, yn rhoi perfformiad ysbrydoledig ar y soddgrwth, ac yn llwyddo i gael y drydedd wobr. Llongyfarchiadau i chi i gyd am ddod â chlod i'ch ysgolion a'ch ardal!

**Taith gerdded Cwm Idwal**
Aeth disgyblion dosbarth Mr Huw Jones ar daith gerdded heriol, dan ofal dau arweinydd dringo mynydd profiadol sef, Mr Cemlyn Jones a Mrs Morfudd Thomas. Rydym yn ffodus iawn o gael cydweithio â'r cerddwyr profiadol hyn, sydd wedi teithio ar hyd a lled y byd gan gynnwys i base camp Everest. Aeth y disgyblion ar daith o amgylch llyn Idwal, cyn cerdded yn ôl ar hyd y ffordd Rufeinig tuag at yr ysgol. Diwrnod bythgofiadwy, llawn hanes a golygfeydd ysblennydd.

**Cynan**
Mae Cynan, o ddosbarth Mrs Bethan Jones, wedi profi ei fod yn dipyn o arwr yn ddiweddar. Yn anffodus, ar hyn o bryd, mae tad Cynan yn treulio cryn amser yn yr ysbyty ac fel ysgol, anfonwn ein cofion ato. Un noswaith, pan oedd Cynan yn y tŷ ar ei ben ei hun gyda'i fam, aeth ei fam yn wael. Bu Cynan wrthi'n ceisio cynorthwyo ei fam a thra roedd ei fam yn anymwybodol, llwyddodd i ffonio ei daid a'i nain, Valerie ac Islwyn Jones i ofyn am help. Wrth lwc, roedd yn gwybod yn iawn beth oedd y rhif, a chafwyd cymorth mewn dim o dro! Da iawn Cynan! Rwyt ti'n arwr!

**Addysg Awyr Agored: Wal Ddringo a Chyfeiriannu**
Aeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 i barc Padarn, Llanberis i gymryd rhan yn yr Ŵyl Gyfeiriannu i ysgolion Gwynedd, ac yn ystod yr wythnosau diwethaf, maent wedi bod yn hogi eu sgiliau darllen map o amgylch yr ysgol. Yn ystod yr wythnos hon, bu pob aelod o flynyddoedd 4, 5 a 6 yn ymweld â chanolfan ddringo Indefatigable. Mae llawer un yn dilyn ôl troed eu cyn-ddisgybl, Ioan Doyle!

**Canolfan Arddio**
Aeth disgyblion dosbarth Meithrin, yn llawn brwdfrydedd, i Ganolfan arddio Fron Goch yn ddiweddar. Cafwyd hwyl yn arsylwi ar y planhigion ac offer garddio gwahanol a dysgu gweithio fel grŵp wrth blannu, a chyn ei throi hi am y bws, cwblhawyd helfa drysor! Prynwyd llawer o blanhigion i'r ysgol i ychwanegu at ein casgliad! Diolch 'Fron Goch' am y croeso!




**Diwrnod Gwyllt a Gwallgo – Crafangau a Chynffonau**
Fel y gwyddoch, mae dosbarth Mrs Marian Jones, fel rhan o'u gwaith thema, wedi bod yn astudio'r eliffant â'r disgyblion ar bigau'r drain eisiau tynnu sylw pawb at y creulondeb tuag at yr eliffantod, druan. Penderfynwyd ar ffordd ymlaen drwy gyd-weithio hefo'r Cyngor Ysgol a chynhaliwyd diwrnod Gwyllt a Gwallgo gan gefnogi achos ac ymgyrch WWF. O ganlyniad, daeth pawb i'r ysgol yn edrych fel anifail gwyllt! Diolch i Ms Nicola, Ms Sara, Mr Tomos ac i Fiona Sherlock am fod mor garedig â gadael i ni gael `benthyg!' ei phaent pwrpasol ac am roi o'i hamser i'n cynorthwyo i beintio wynebau'r disgyblion.

Yn ystod y prynhawn, aeth y plant i Sgwâr Rachub i dynnu sylw'r trigolion tuag at y creulondeb hwn sy'n digwydd ym myd yr eliffant.



**Dyma'r Plant wedi cyrraedd Rachub yn eu gwisgoedd arbennig**

# CHWARAEON

## ATHLETWRAIG LWYDDIANNUS

Dyma dymor cyntaf Natalie Owen yn y byd athletau. Mae Natalie wedi cymryd at y campau lluchio yn hawdd ac mae'r tŷ, yn Ffordd Llanllechid, Rachub yn brysur lenwi gyda medalau sy'n dangos ei llwyddiant. Ers dechrau'r tymor mae Natalie wedi ymuno a Chlwb Athletau Menai, ac yno o dan lygaid barcud ei hyfforddwr, Mark Lee mae wedi gwneud cynnydd sylweddol. Ei champau yw taflu'r waywffon, y ddisgen a'r pwysau (siot) ac mae'n ysu am gael taflu'r 'morthwyl,' ond mae'n rhaid iddi aros am flwyddyn neu ddwy cyn cael gwneud hynny. Unarddeg mlwydd oed yw Natalie ac mae'n cystadlu yn yr oedran o dan 13 oed. Er mai cynnar iawn yw'r tymor, mae wedi teithio llawer a chael llwyddiannau yn barod. Mae hi wedi gorffen yn y tri uchaf ym mhob un o'r cystadlaethau mae wedi cymryd rhan ynddynt, gan gynnwys ennill pencampwriaeth Athletau Gogledd Cymru wrth daflu'r siot



**Dyma Natalie yn ei medalau**

Eisoes eleni mae wedi cystadlu ym Mangor, Cei Connah a Warrington. Ni fydd gwyliau Haf eleni, gan fod misoedd prysur o'i blaen gyda chystadlaethau cyson yn Wrecsam, Manceinion, Warrington, Bangor, Bae Colwyn a Leigh ag enwi ond ychydig o'r llefydd y bydd yn teithio iddynt.

Gobeithio erbyn diwedd y tymor y cawn adrodd mwy am lwyddiannau Natalie ac y bydd y medalau yn dal i gyrraedd Rachub.

# Janet yn Llywyddu



**Janet Davies ar gwrs golff Sant Deiniol gyda Chastell Penrhyn yn y cefndir**

Mae hanes wedi ei greu yng Nghlwb Golff St. Deiniol, Bangor gyda Janet Davies o'r Gerlan wedi ei dyrchafu i swydd llywydd y clwb. Dyma'r tro cyntaf mewn 109 o flynyddoedd i ferch gael ei hethol i'r swydd. Bu Janet yn gapten ar adran y merched yn y clwb am ddwy flynedd cyn eleni a gwnaeth waith arbennig yn y swydd honno trwy ennill dyrchafiad i Adran 4 o Gynghrair Golff Merched Gogledd Cymru. Hefyd bu'n weithgar mewn cylchoedd eraill o fewn y clwb trwy wneud gwaith addurno a phaentio ystafell y merched ymhlith pethau eraill a thrwy gynnal diwrnod i ddenu mwy o ferched a phobl ifanc a phlant i ymddiddori mewn golff.

"Rydw i wedi gweld newid mawr mewn agwedd dros y blynyddoedd diwethaf," meddai Janet "ac mae yna lawer mwy o barodrwydd i dderbyn fod gan y merched gyfraniad gwerthfawr i'w wneud mewn sicrhau llwyddiant i'r clwb."

Yn y dyfodol hoffai weld mwy o bobl ifanc a merched yn ymuno â chlwb Sant Deiniol ac mae'n bwriadu defnyddio ei dylanwad i geisio adeiladu ar y sylfeini a osodwyd ganddi. Mae'n gobeithio gweld y clwb yn tyfu fel un sy'n croesawu pawb o bob oed i gyfrannu at ei lwyddiant.

"Does dim dwywaith nad yw Clwb Golff Sant Deiniol yn un o asedau mwyaf gwerthfawr ardal Bangor ac Ogwen gan fod golff yn gêm awyr agored iachus sy'n hybu safonau gonestrwydd a chwarae teg mewn cystadleuaeth gyfeillgar," meddai Janet.

Llongyfarchiadau iddi a dymuna ardal Dyffryn Ogwen bob llwyddiant iddi yn ei swydd bwysig.

## DYN O HAEARN
**gan Andre Lomozik**

Simon Lee Evans, priod ag Emily, a thad i Daniel a Sophia, ac yn byw yn Rachub, gweithio ers chwarter canrif ym mhrifysgol Bangor fel rhwymwr llyfrau.

Dim byd yn anghyffredin yn yr uchod, ond mae Lee yn unigryw yn ardal Dyffryn Ogwen, gan fod hanes diddorol i'w fywyd. Ers dyddiau ysgol, mae Lee wedi bod yn ymwneud â byd chwaraeon. Bu'n cynrychioli Cymru fel gôl-geidwad i dîm dan 18 ac 21 oed mewn gemau hoci rhyngwladol. Yna fe symudodd ymlaen i fod yn aelod o dîm pêl-droed Bethesda, eto fel gôl-geidwad, am sawl tymor. Ond ar ôl damwain ar y cae a thorri ei goes yn ddrwg iawn, penderfynodd droi ei sylw at fod yn ddyfarnwr pêl-droed.

Roedd hyn yn golygu ei fod yn gorfod cryfhau ei goes ar ôl ei anaf gan ymarfer wrth redeg. Gweithiodd ei ffordd i fyny'r rhengoedd, a dod yn Ddyfarnwr Uwch Gynghrair Cymru erbyn 2002, ac yn Ddyfarnwr Cynorthwyol Rhyngwladol FIFA/UEFA 2003/05. Erbyn 2007 roedd wedi ei ddyrchafu yn Ddyfarnwr FIFA/UEFA lefel 1, yr unig Gymro i gyrraedd y safon yma, gan mai dim ond 80 o ddyfarnwyr lefel 1 sydd drwy Ewrop. Mae hyn yn glod mawr iddo. Mae wedi dyfarnu mewn gemau ar hyd a lled Ewrop - Gwlad yr Iâ, Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon, yr Alban, Awstria, Azerbaijan, Kazakstan, Gwlad Belg, Luxembourg, Sbaen, Ffrainc, yr Eidal, Bosnia, Bwlgaria, San Marino, Portiwgal, Groeg, Cyprus, Macedonia, yr Iseldiroedd, Slovakia, Slovinia, Swistir, Sweden, Ynysoedd Faro, Andorra, Lichtenstein, Georgia, Albania, Israel, Rwmania, Ukrain, Belarws, a Norwy. Nid oedd hyn yn ddigon iddo oherwydd penderfynodd ei fod am redeg marathon Llundain, yn y flwyddyn dwy fil a dwy, a chodi arian i elusen 'Help for Heroes'. Ar ôl Llundain, roedd marathon Caeredin yn galw, a marathon Eryri. Mae wedi cwblhau'r tri marathon yma ddwywaith. Dyma pryd y penderfynodd ei fod eisiau gallu nofio yn well, a dechreuodd ymarfer ym mhwll nofio Bangor. Aeth o ddau neu dri hyd y pwll i wneud tri deg a phedwar deg mewn un sesiwn. Yn awr mae'n nofio hyd llyn Llanberis o leiaf unwaith yr wythnos.



**Simon Lee Evans**

Y gamp nesaf oedd reidio beic ac ar ôl treulio oriau ar gefn y beic, penderfynodd ei fod am roi cynnig ar IronMan/Triathalon, sef nofio dwy filltir a hanner, reidio cant a deuddeg o filltiroedd a gorffen drwy redeg marathon. Erbyn heddiw, mae wedi cwblhau sawl 'IronMan', yn Efrog Newydd, Lanzarote, Mallorca, a Chymru. Mae hefyd wedi cystadlu mewn rasys beic yn y Paris-Roubaix, 'Wiggle Devil Dragon Ride 300k, Etape Eryri, Tour de Môn, Boland Bad ass, a Phencampwriaeth Genedlaethol y Fenni'. Yn ystod Gorffennaf eleni mae'n bwriadu reidio o gastell Caernarfon i gastell Caerdydd ar ddydd Sadwrn ac yna dod adref ar y beic ddydd Sul, i godi arian at elusen 'Dyslecsia'.